



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mawrth 2019  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Mehefin 2019

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i fynd i'r afael â'r bylchau mewn egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru.

**Sut i ymateb**

Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Caiff y cwestiynau eu crynhoi mewn holiadur ar ddiwedd y ddogfen. Defnyddiwch yr holiadur hwn i roi eich adborth. Gellir anfon e-bost at yr ymatebion / postio at y manylion cyswllt isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir gweld y dogfennau ymgynghori o wefan Llywodraeth Cymru [yma](#)

**Manylion Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Ymadael â'r UE a Strategaeth  
Yr Adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Llywodraeth Cymru  
Llawr 1af, Parc Cathays 2  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost [Environmental.Governance@gov.wales](mailto:Environmental.Governance@gov.wales)

## Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan contract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- Yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld;
- Yr hawl i ofyn inni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny;
- Yr hawl i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar eu defnyddio;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i fynnu bod eu data yn cael eu dileu';
- Yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>



## Rhagair gan y Gweinidog

Rydym yn lwcus fel gwlad fod gennym amgylchedd naturiol cyfoethog.

Mae'n tirweddau trawiadol, o'r mynyddoedd sy'n asgwrn cefn y wlad i'n harfordir a'r moroedd tu hwnt iddyn nhw, yn bwysig o safbwynt yr amgylchedd a hefyd yn rhan allweddol o'n hunaniaeth a'n diwylliant. Mae'r adnoddau naturiol sydd ynddyn nhw'n dod â buddiannau inni hefyd, sy'n hanfodol i'n ffyniant.

Wrth i'r diwrnod pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd nesáu, mae'n bwysig cydnabod bod y drefn bresennol ar gyfer llywodraethu'r amgylchedd wedi arwain at welliant mawr yn iechyd ein hamgylchedd. Yng Nghymru, mae gennym bellach draethau a dŵr yfed glanach, ansawdd aer gwell a llai o lygredd amgylcheddol.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw ostyngiad yn y safonau amgylcheddol a'n blaenoriaeth bennaf oedd cynnal rhaglen helaeth o gywiro deddfwriaeth i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n deillio o'r UE yn barod ar y diwrnod ymadael. Rydym wedi ymrwymo hefyd i barhau i wella rheoliadau amgylcheddol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae dau reswm pam y mae hyn yn bwysig.

Yn gyntaf, er bod ein bywyd gwyllt a chynefinoedd amrywiol yn dod â manteision inni, mae'r dystiolaeth yn dangos bod ein bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio. Rhaid mynd i'r afael â hyn a'r newid yn yr hinsawdd os ydym am ddiogelu'n dyfodol.

Yn ail, mae enw da Cymru am gynnyrch o ansawdd da yn dibynnu ar safonau uchel ac yn hanfodol inni allu cystadlu ym marchnadoedd y byd.

Yr angen i wella eto ar yr enw da hwn yw un o'r negeseuon clir rydym yn ei chlywed yn y trafodaethau rydym wedi'u cynnal dros y ddwy flynedd ddiwethaf ers y refferendwm.

Mae ein deddfwriaeth, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, yn cael ei chydabod trwy'r byd. Byddwn yn eu cadw a byddan nhw'n llywio ein polisi yn y dyfodol. Ond bydd gadael yr UE yn golygu colli agweddau eraill ar lywodraethu amgylcheddol rydym erbyn hyn yn dibynnu arnyn nhw. Fel Llywodraeth, rydyn ni'n ymrwmo i gau'r bylchau hyn. Yng Nghymru, rydyn ni'n deall bod perthynas glos rhwng ein hamgylchedd a'n heconomi a'i fod yn hanfodol i'n cymdeithas. Am hynny, mae'r amgylchedd yng Nghymru'n fater trawsbynciol. Wrth ddatblygu atebion i gau'r bwlc a ddaw yn y trefniadau llywodraethu amgylcheddol wrth inni adael yr UE, rhaid gochel rhag gwneud yr amgylchedd yn bwnc ar wahân a chydabod bod yn rhaid wrth weithredu cymdeithasol ac economaidd os ydym am daclo'r heriau amgylcheddol a manteisio ar y cyfleoedd.

Dyma felly yw man cychwyn yr ymgynghoriad hwn: sut dylem ni fynd ati i gau'r bylchau a ddaw yn sgil gadael yr UE, mewn ffordd sy'n parhau i sbarduno gwelliannau amgylcheddol; sy'n datblygu'n henw da am safonau uchel; sy'n cynnig fframwaith llywodraethu cydlynol ac integredig ac sy'n adeiladu ar ein deddfwriaeth sy'n enwog trwy'r byd.

Mae hwn yn bwnc cymhleth y mae angen ei ystyried yn ofalus er mwyn inni allu datblygu trefniadau llywodraethu sy'n ateb y gofyn ac sy'n diwallu anghenion y genedl. Rwy'n disgwyl ymlaen at glywed eich barn.



**Lesley Griffiths AC**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

## Cynnwys

<b>Trosolwg o'r Ymgynghoriad</b> .....	8
<b>Crynodeb Gweithredol</b> .....	9
<b>1: Gadael yr UE yn creu cyd-destun newydd</b> .....	11
<b>2: Egwyddorion Amgylcheddol</b> .....	13
Egwyddorion cyfraith amgylcheddol ryngwladol.....	13
Egwyddorion yng nghyfraith yr UE.....	14
Egwyddorion yng nghyfraith a pholisi'r DU.....	15
Egwyddorion yng nghyfraith a pholisi Cymru .....	15
<b>Bylchau yn yr Egwyddorion Amgylcheddol</b> .....	19
Trefniadau Pontio.....	21
<b>3: Atebolrwydd, Hygyrchedd a Threfniadau Gorfodi</b> .....	21
Y sefyllfa bresennol yn yr UE.....	22
Atebolrwydd, Hygyrchedd a Gorfodi yng Nghymru .....	24
Bylchau yn y Trefniadau Llywodraethu yng Nghymru .....	27
Cau'r Bylchau yng Nghymru .....	28
<b>Strwythurau Presennol</b> .....	29
<b>Trefniadau Newydd</b> .....	29
Rôl, Cwmpas a Chyfansoddiad corff sy'n gweithredu yng Nghymru .....	29
Swyddogaethau corff sy'n gweithredu yng Nghymru .....	32
<b>Gweithio ar draws y DU</b> .....	36
<b>Atodiad 1 – Rhestr o Gwestiynau</b>	
<b>Atodiad 2: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)</b>	
<b>Atodiad 3: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</b>	
<b>Atodiad 4: Swyddogaethau Comisiwn yr UE</b>	
<b>Atodiad 5: Y mecanweithiau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru er mwyn sicrhau atebolrwydd amgylcheddol</b>	
<b>Atodiad 6: Dadansoddiad o'r Bylchau</b>	
<b>Atodiad 7: Ble i gael rhagor o wybodaeth</b>	

## Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Mae'r papur hwn yn gofyn ichi am eich barn am y bylchau yn y drefn lywodraethu amgylcheddol y creir rhai ohonyn nhw yn sgil gadael yr UE, a sut y gallwn gau'r bylchau mewn ffordd a fydd yn cynnig fframwaith ystyrlon a fydd yn gyfrwng i wella'n hamgylchedd yn y tymor hir.

### Sut i ymateb

Rydym yn ddiolchgar ichi am roi o'ch amser i ddarllen yr ymgynghoriad hwn ac ymateb iddo.

Mae pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad yn opsiynol, heblaw am y cwestiynau 'Amdanoch chi'. Bydd yr adran honno'n ein helpu i weld a ydyn ni wedi holi ystod eang ac amrywiol o bobl.

Caiff ymatebion ar ran mudiadau a chyrrff eu dadansoddi ar wahân i ymatebion unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod ar ran pwy yr ydych yn ymateb. Os ydych yn ymateb ar ran corff neu fudiad, rhowch eich enw ac enw'ch corff. Ond mae croeso ichi ymateb yn ddiennw os dyna'ch dymuniad. Darllenwch y bennod am Ddiogelu Data i gael mwy o wybodaeth am hyn.

Bydd yr ymgynghoriad yn para o 18 Mawrth 2019 tan 9 Mehefin 2019. Ni fydd ymatebion a fydd yn dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu dadansoddi.

Dywedwch eich dweud wrthym. Mae'ch barn yn bwysig inni. Bydd yn ein helpu i ffurfio a chaboli'n cynigion.

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 23:59 9 Mehefin 2019.

**Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:**

**E-bost:**

[Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru](mailto:Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru)

[Environmental.Governance@gov.wales](mailto:Environmental.Governance@gov.wales)

**Ysgrifennwch aton ni:**

Llywodraethu'r Amgylchedd, Uned Ymadael â'r UE a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig:**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Os hoffech gopi caled o'r ddogfen, e-bostiwch:

[Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru](mailto:Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru)

[Environmental.Governance@gov.wales](mailto:Environmental.Governance@gov.wales)



## Crynodeb Gweithredol

Mae'n lles yn dibynnu ar adnoddau naturiol Cymru. Yr adnoddau hynny'n sy'n cynnal ein ffyniant a'n hiechyd ac maen nhw'n rhan bwysig o'n diwylliant a'n hunaniaeth. Mae'n hadnoddau naturiol, sydd mor sylfaenol i'n bywyd a'n bywoliaeth, yn dibynnu ar amgylchedd iach. Rydyn ni'n dibynnu ar ein hadnoddau naturiol am ddeunyddiau crai, dŵr ac ynni; yn unigolion ac yn ddiwydiannau mawrion.

Egwyddorion amgylcheddol yr UE, fel y'u hymgorfforir yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeidd (TFEU)<sup>1</sup> (gweler tudalen 14) sydd wedi llywio polisi a chyfraith amgylcheddol yr UE dros y 40 mlynedd diwethaf. Y Comisiwn Ewropeidd a Llys Cyfiawnder Ewrop sydd wedi bod yn gyfrifol am sicrhau bod y gyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith a bod yr Aelod-wladwriaethau yn atebol amdani.

Wedi gadael yr UE, ni fydd y strwythurau llywodraethu amgylcheddol hyn bellach yn gweithio yn y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y bylchau y bydd gofyn eu cau yng Nghymru a sut y gellid gwneud hynny'n effeithiol i greu fframwaith llywodraethu amgylcheddol sy'n diwallu anghenion penodol Cymru ac sy'n para i fodloni'n safonau amgylcheddol.

Mae'n bwysig cofio bod man cychwyn Cymru o ran llywodraethiant amgylcheddol yn wahanol i fan cychwyn gweddill y DU. Ar lefel yr UE, mae Cytundebau'r UE yn mynd i'r afael â'r pwnc ar ddwy lefel. Mae'r lefel gynta'n rhoi cyd-destun trosfwaol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac sy'n ei gymhwyso ym mhob maes polisi. Ac yna ceir pedair egwyddor amgylcheddol yr UE. Yng Nghymru, mae datblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Deddf yr Amgylchedd yn integreiddio'r ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gyflwyno set arall o egwyddorion i lywio a chefnogi'n polisïau rheoli adnoddau naturiol. Mae dwy haen yng Nghymru felly ac yn yr UE.

Bydd ein deddfwriaeth sylfaenol ddomestig yn aros fel y mae ar ôl gadael yr UE, sy'n golygu nad yr un bylchau fydd yng Nghymru ag yng ngweddill y DU. Hefyd, mae deddfwriaeth wedi'i chreu yng Nghymru sydd wedi llwyr ddiwygio'r cyrff sy'n gyfrifol am roi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith yng Nghymru. A hithau â set o egwyddorion amgylcheddol a set wahanol o gyrrff, mae man cychwyn Cymru yn hyn o beth yn wahanol iawn sy'n golygu bod gennym ni, yn wahanol i weddill y DU, fframwaith deddfwriaethol y gallwn adeiladu arno.

Yng Nghymru, mae'r fframwaith llywodraethu eisoes yn cynnwys:

- Amcanion tymor hir ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol fel eu bod yn cyfrannu at ffyniant tymor hir Cymru a'i phobl - gan gynnwys saith nod llesiant;
- Rhoi ein hadnoddau naturiol yng nghyd-destun ehangach cyfrannu at y saith nod llesiant;

---

<sup>1</sup>Erthygl 191 Y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeidd

- Mynd ati mewn ffordd integredig i reoli adnoddau naturiol, gan gydnabod mai ein hadnoddau naturiol yw sylfaen ein heconomi a'n cymdeithas;
- Fframwaith ailadroddol i gyflawni amcanion tymor hir sy'n cynnwys sylfaen o dystiolaeth, polisi strategol a rheoli ar sail ardal;
- Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i gyfrannu at yr amcanion a'u rhoi ar waith;
- Set o egwyddorion i ddangos sut mae cyflawni'r amcanion a'u hymgorffori wrth lunio polisiau a'u rhoi ar waith - mae hyn yn cynnwys y 5 ffordd o weithio (tymor hir; atal; integreiddio; cydweithio; a chyfranogiad) a set o egwyddorion amgylcheddol i helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; a
- Gofyn i Gyrrff Cyhoeddus gyfrannu at yr amcanion tymor hir, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i warchod cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gennym drefniadau cryfion eisoes ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Cyrff Cyhoeddus a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y cyrff hyn yn dal i weithredu ar ôl Brexit wrth gwrs, ond mae gennym gyfle nawr i gryfhau'n trefniadau llywodraethu cenedlaethol a chau'r bwloch goruchwyllo a adewir gan Gomisiwn yr UE.

Yng Nghymru, y prif amcan fydd cau'r bwloch mewn ffordd sy'n gydnaws ac yn gyson â'n hymagwedd ehangach at ddatblygu cynaliadwy.

Hefyd, gan na fydd ein hymrwymiaidau rhyngwladol ond yn cynyddu yn eu pwysigrwydd wedi inni adael yr UE, peth synhwyrol felly yw adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol gafodd ei chreu i gefnogi'r ymrwymiaidau hynny a gosod sylfeini ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, i weithredu yn unol â'n hymrwymiaidau rhyngwladol, rhaid gweithredu ar y cyd ar lefel y DU. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn ichi ystyried sut orau i gau'r bylchau ar ddwy lefel. Y lefel gyntaf yw'r cyfrifoldeb datganoledig i weithredu yng Nghymru a'r ail yw'r ymrwymiaidau ar y cyd ar lefel y DU.

Wrth ofyn barn sut y dylem fynd ati, mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i drefnu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn ymdrin â'r egwyddorion amgylcheddol, gan edrych beth sy'n bodoli ar lefel yr UE a Chymru a gofyn ichi am eich barn am y bylchau a sut i fynd i'r afael â nhw. Mae'r ail ran yn edrych ar y mecanweithiau atebolrwydd ar lefel yr UE a Chymru ac yn gofyn ichi am eich barn ynghylch sut i lenwi'r bylchau a adewir pan na fydd y DU yn cael defnyddio strwythurau llywodraethu'r UE mwyach.

## 1: Gadael yr UE yn creu cyd-destun newydd

1.1 Yn ein papur gwyn, "*Diogelu Dyfodol Cymru*", rydyn ni'n gosod allan ein blaenoriaethau i ddiogelu dyfodol Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hynny'n cynnwys diogelu a gwella'n hadnoddau naturiol a chynnal ein safonau o ran ansawdd dŵr ac aer, allyriadau a gwarchod yr amgylchedd.

1.2 O ganlyniad i adael yr UE, byddwn yn colli'r trefniadau llywodraethu y mae Cytundebau'r UE yn eu rhoi inni, gan gynnwys rhan o'r fframwaith ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth yn ogystal â'r swyddogaethau y mae Comisiwn yr UE yn eu cyflawni fel gwarchodwr cyfraith yr UE.

1.3 Y ddogfen hon yw'r ddiweddaraf mewn cyfres o bapurau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u paratoi ar ein polisiâu i fynd i'r afael â'r pynciau llosg fydd yn codi pan na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r pynciau a drafodir yn y ddogfen hon fel rhan o'u cyfraniad ehangach at ein ffyniant yn y dyfodol ac i wireddu ein blaenoriaethau Brexit ar:

**Cymdeithas a'r amgylchedd** - help i sicrhau na cholli'r hawliau amgylcheddol ac i ddiogelu hawl pobl i ddwyn y llywodraeth i gyfrif.

**Y farchnad sengl, yr undeb tollau a masnach ryngwladol** - trwy weithredu i gau'r bwlch yn y trefniadau llywodraethu amgylcheddol, bydd hynny'n ein helpu i wireddu'n hymrwymiad i gynnal ein safonau amgylcheddol ac yn ei dro, yn cefnogi'n henw da am gynnyrch o ansawdd uchel, a fydd yn hanfodol inni allu cystadlu ym marchnadoedd y byd

**Cyfansoddiad a datganoli** - gan fod yr amgylchedd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, mae'r cynigion yn adlewyrchu'r setliad datganoli ac yn cyd-fynd â'n hagenda uchelgeisiol ar gyfer cynaliadwyedd sydd wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig.

**Trefniadau Pontio** - llunio strwythur llywodraethu y gallai fod ei angen fel rhan o'r trefniadau pontio rhwng y DU a'r UE ar ôl inni adael.

1.4 Yn ein papur gwyn, "*Brexit a Datganoli*", rydyn ni'n gofyn am lefel ddyfnach a mwy cyson o gydweithredu rhwng gwledydd y DU ar ôl gadael yr UE. Bydd hynny'n gofyn am drefniadau llywodraethu ar y cyd trwy gytundeb rhwng y pedair llywodraeth, gan ddatblygu'r traddodiad o gydweithio a ddatblygodd o fod yn aelod o'r UE.

1.5 Er bod gadael yr UE yn golygu colli nifer o fecanweithiau llywodraethu'r UE, mae'n gyfle i greu trefniadau llywodraethu newydd sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi ymrwymadau rhyngwladol ac yn datblygu'n gwaith ar reoli adnoddau naturiol yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd yn gyfle i ddatblygu strwythur sy'n cefnogi ymrwymiad i beidio â chaniatáu dirywiad, ond hefyd ar lefel mwy sylfaenol, ymrwymiad i gyfoethogi'r amgylchedd i drechu'r heriau rydym yn eu hwynebu.

1.6 Dyma'r sylfaen rydym wedi'i defnyddio i ddatblygu'r cynigion rydym am ichi eu hystyried yn y ddogfen hon. Mae'n gwaith wedi elwa ar ei ganfed gan gyfraniad rhanddeiliaid ac rydyn ni'n gobeithio y bydd y ddogfen hon yn gyfrwng inni barhau â'r drafodaeth i ddatblygu cynigion sy'n ateb y gofyn yng Nghymru.

## 2: Egwyddorion Amgylcheddol

2.1 Mae egwyddorion amgylcheddol yn helpu i godi safonau amgylcheddol ac yn sail ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth.

2.2 Mae'r adran hon yn ystyried goblygiadau gadael yr UE a cholli effaith egwyddorion amgylcheddol yr UE sydd wedi llywio datblygiad polisiau a deddfwriaeth yr UE tan nawr, ar y DU. Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn am y bylchau fel ag y maen nhw'n gymwys yng Nghymru a sut y dylem ni gau'r bylchau hynny.

### Egwyddorion cyfraith amgylcheddol ryngwladol

2.3 Mae egwyddorion amgylcheddol wedi'u hymgorffori mewn cyfraith amgylcheddol ac maen nhw wedi bod yn rhan allweddol o'r ymateb i heriau amgylcheddol ers blynyddoedd lawer. Mewn cyfraith arferedig y cafwyd y sôn cyntaf amdany'n nhw ac yn ddiweddarach, fe'u cynhwyswyd yng Nghonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig er enghraifft OSPAR<sup>2</sup> a'u hystyried wedi hynny mewn penderfyniadau barnwrol.

2.4 Roedd 26 o egwyddorion yn Natganiad Stockholm<sup>3</sup>(1972), i annog llywodraethau i weithredu i wella'r amgylchedd. Cymerwyd camau pellach ym 1992, gyda Datganiad Rio<sup>4</sup> a'i 27 o egwyddorion, gan baratoi'r tir i sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y broses benderfynu. Ers hynny, mae egwyddorion Rio wedi cael eu hymgorffori mewn cytundebau amgylcheddol, gan ddod yn raddol yn rhan o'r gyfraith ryngwladol. Er enghraifft y Confensiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

2.5 Mae'r un peth wedi digwydd hefyd o ran y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy, gyda Datganiad Rio'n datgan mai'r unig ffordd o sicrhau cynnydd economaidd yn y tymor hir yw trwy ddiogelu'r amgylchedd. Yn sail i hyn, dyluniwyd nifer o egwyddorion i helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy, gan gynnwys:

- Yr egwyddor ragofalus;
- Y llygrwr sy'n talu;
- Annog y cyhoedd i gymryd rhan;
- Ecosystemau cryf;
- Defnydd cynaliadwy; ac
- Atal.

2.6 Nid yw datblygu cynaliadwy ei hun yn egwyddor. Cyd-destun ar gyfer yr egwyddorion yw datblygu cynaliadwy. Gwelir hynny yn ymagwedd y Cenhedloedd Unedig, fel y gwelwyd yn y Gynhadledd ar Ddatblygu Cynaliadwy<sup>5</sup> (Rio+20) ac yn

---

<sup>2</sup> *Convention for the Protection of the Marine Environment of the North-East Atlantic*

<sup>3</sup> *Mabwysiadwyd Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd Dynol neu Ddatganiad Stockholm ar 16 Mehefin 1972 gan*

<sup>4</sup>*Datganiad Rio ar Ddatblygu Amgylcheddol 1992*

<sup>5</sup> Mehefin 2012

Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a'i 17 o nodau datblygu cynaliadwy<sup>6</sup> ("Y Nodau Byd-eang").

## Egwyddorion yng nghyfraith yr UE

2.7 Ceir yng Nghytundebau Ewrop<sup>7</sup> nifer o egwyddorion cyffredin fel sybsidiaredd<sup>8</sup>, cymesuredd<sup>9</sup> ac anogaeth i'r cyhoedd gymryd rhan<sup>10</sup> ond mae erthygl 191 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn rhestru'r hyn a adnabyddir fel pedair egwyddor amgylcheddol yr UE, sef:

- Rhagofalus;
- Atal;
- Unioni yn y tarddiad; a
- Y llygrwr sy'n talu.

2.8 Mae'r egwyddorion yn sefyll yng nghyd-destun ehangach Cytundebau'r UE. O fewn strwythur yr UE, mae diogelu'r amgylchedd, ac yn arbennig o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy, wedi'i gymhathu ym mhob polisi a gweithgaredd (Erthygl 11 TFEU ac Erthygl 3(3) TEU). O dan y TFEU, bydd polisi'r UE yn cyfrannu at ddiogelu, gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd, diogelu iechyd pobl yn ogystal â defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ddarbodus a rhesymegol (Erthygl 191(1) TFEU).

2.9 Mae polisi amgylcheddol yr Undeb yn seiliedig ar bedair egwyddor, sy'n rhoi cyfeiriad i bolisïau a phenderfyniadau amgylcheddol yr UE. Dywedir weithiau eu bod yn gyfansoddiadol eu natur a'u bod yn rhan o'r *acquis* amgylcheddol.

2.10 Nid yw'r egwyddorion yn creu unrhyw hawliau cyfreithiol uniongyrchol ond maen nhw'n llywio datblygiad cyfraith a pholisi amgylcheddol yr UE, gan gynnwys pennu safonau amgylcheddol. Mae rhai o'r egwyddorion wedi'u hymgorffori'n llwyr o fewn deddfwriaeth yr UE, er enghraifft mae'r egwyddor ragofalus wedi'i hymgorffori mewn rheoliadau ar gemegau a chyfraith rheoli pysgodfeydd. Nid yw'r cytundebau'n diffinio'r egwyddorion, ond mae Comisiwn yr UE wedi cyhoeddi canllaw ynghylch defnyddio'r egwyddor ragofalus<sup>11</sup>.

2.11 Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn defnyddio'r egwyddorion i ddehongli deddfwriaeth yr UE, gan gynnwys y Cytundebau. Er enghraifft, mae'r llys wedi dibynnu weithiau ar yr egwyddor ragofalus a'r egwyddor atal i'w helpu i ddod igasgliadau ar achosion amrywiol, er enghraifft mewn cysylltiad ag iechyd anifeiliaid<sup>12</sup>, cynefinoedd<sup>13</sup> a gwastraff<sup>14</sup>.

---

<sup>6</sup>Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy 2015

<sup>7</sup>Y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd (TEU) a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)

<sup>8</sup>Erthygl 5(3), y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

<sup>9</sup>Erthygl 5(4), y Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd

<sup>10</sup>Erthygl 15, y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd

<sup>11</sup>Y Comisiwn Ewropeaidd "Communication on the Precautionary Principle" COM (2000

<sup>12</sup> Achos C-180/96 UK v Commission [1998] ECR

## Egwyddorion yng nghyfraith a pholisi'r DU

2.12 Mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo trwy bolisiâu'r UE ac yn cael eu mabwysiadu yng nghyfraith yr UE, yn hytrach na'u cymhwyso gan yr Aelod-wladwriaethau eu hunain. Dros y 40 mlynedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o gyfraith amgylcheddol y DU wedi dod o'r Undeb Ewropeaidd.

2.13 Mae polisi a chyfraith yr UE felly wedi cael effaith aruthrol ar y gyfraith amgylcheddol yn y DU a Chymru.

2.14 Trwy'r corpws o gyfreithiau'r UE sydd wedi dod i rym yn y DU, naill ai trwy gyfraith uniongyrchol yr UE fel Rheoliadau'r UE ar REACH neu drwy drosi cyfraith yr UE i ddeddfwriaeth ddomestig, fel Cyfarwyddeb y Fframwaith Gwastraff, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi cyfrannu'n fawr at y gyfraith amgylcheddol ddomestig.

2.15 Wrth i'r DU adael yr UE, y cam cyntaf pwysig yw trosi a chadw'r corff hwn o ddeddfwriaeth o'r UE trwy ei ymgorffori'n llawn yng nghyfraith y DU. Gwneir hynny gan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 (adrannau 2 a 3).

2.16 Daw'r egwyddorion i rym hefyd trwy'r cyfeiriadau atyn nhw mewn cyfraith achosion, er enghraifft mae Llys Apêl y DU wedi cyfeirio at egwyddor y llygrwr sy'n talu<sup>15</sup>.

## Egwyddorion yng nghyfraith a pholisi Cymru <sup>16</sup>

2.17 Ers 2015, mae Cymru wedi pasio rhaglen flaengar o ddeddfwriaeth sy'n rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy yn holl waith llywodraethu Cymru. Trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, cafodd datblygu cynaliadwy ei ymgorffori fel y prif gyd-destun polisi a'r sail ar gyfer rheoli a defnyddio adnoddau naturiol. Wrth wneud, gwnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd gyflwyno egwyddorion allweddol ar gyfer llywio amcanion y Deddfau, ac ar gyfer gwneud a chynnal polisiâu.

2.18 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r fframwaith datblygu cynaliadwy y mae'n ei ddisgrifio yn berthnasol i bob maes polisi. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i weithredu "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy", sy'n golygu eu bod yn gorfod sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu bodloni heb aberthu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

---

<sup>13</sup>Achos C-127/02 Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee v Staatssecretaris van Landbouw [2004]

<sup>14</sup>Achosion C-175/98 a C-177/98 Fancesca Bizzaro et Paola Lirussi [1999]

<sup>15</sup> Re Celtic Extraction Ltd (In Liquidation), In Re Bluestone Chemicals Ltd (In Liquidation) [2001] CH 475

<sup>16</sup>Fe welwch ddisgrifiad manylach o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn Atodiadau 2 a 3.


2.19 Er mwyn gallu gwneud, mae angen i gyrrff cyhoeddus gadw at bum egwyddor - y 5 ffordd o weithio. Sef: integreiddio, y tymor hir, atal, cyfranogiad a chydweithio.

2.20 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd set arall o egwyddorion fel bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli'n fwy cynaliadwy. Mae'r egwyddorion hyn, sy'n seiliedig ar yr arferion gorau trwy'r byd, yn ategu'r rheini yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda phedair sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r 5 ffordd o weithio a phum arall sydd wedi'u creu'n unswydd i roi'r hyn a fabwysiadwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ar waith.

2.21 Naw egwyddor Deddf yr Amgylchedd (yr SMNR neu egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy) yw:

- Rheoli i addasu;
- Graddfa;
- Cydweithio;
- Cyfranogiad y cyhoedd;
- Tystiolaeth;
- Canlyniadau tymor byr, canolig a hir;
- Gwerth ecosystemau;
- Atal; a
- Chydnerthedd

Diagram 1: Y 5 ffordd o weithio ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy





2.22 Mae'r egwyddorion yng Nghymru'n rhai eang eu cwmpas, yn amrywio o lywio polisi i gynnal swyddogaethau ar lawr gwlad. Maen nhw'n cael eu gweithredu ar y ddwy lefel:

- Datblygu Cynaliadwy - y 5 ffordd o weithio a'r fframwaith ehangach o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - sy'n ganolog i'r broses o ddatblygu pob polisi.
- Rheoli Adnoddau Naturiol - mae gofyn i Weinidogion Cymru gadw at yr egwyddorion yn Neddf yr Amgylchedd wrth ddatblygu polisiâu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Mae'r egwyddorion yn rhan bwysig iawn hefyd o bwrpas cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru a rhaid i CNC gadw atyn nhw wrth gynnal ei swyddogaethau ar lawr gwlad a Gweinidogion Cymru wrth iddyn nhw roi'r polisiâu hyn ar waith, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir i roi'r polisiâu ar waith.

2.23 Gyda'i gilydd, mae'r Deddfau'n cyflwyno ffordd integredig o weithio sy'n:

- sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ystyriaeth ganolog ym mhob penderfyniad a wneir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru;
- pennu amcanion tymor hir (nodau llesiant) ar gyfer ffyniant a lles pobl ac amgylchedd Cymru, fel bod cyrff cyhoeddus yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw weithio ato;
- cyflwyno ffordd integredig o reoli adnoddau naturiol, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr Amgylchedd a hefyd yn cydnabod mai adnoddau naturiol yw sail ein heconomi a'n cymdeithas;
- sefydlu fframwaith iteraidd, sy'n sicrhau bod polisi adnoddau naturiol yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar raddfa briodol;
- rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyfrannu at a gwireddu amcanion;
- cyflwyno set o egwyddorion datblygu cynaliadwy ac egwyddorion amgylcheddol i roi arweiniad ar sut i wireddu'r amcanion.

## **PRIF GYSYNIADAU AC EGWYDDORION DEDDFWRIAETH GYMREIG**

- **Datblygu Cynaliadwy** - y cyd-destun cyffredinol ar gyfer polisiau yng Nghymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- **Nodau Datblygu Cynaliadwy** - mae'r 7 Nod Llesiant yn eu hadlewyrchu
- **Rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy** - ffordd integredig o reoli adnoddau naturiol Cymru, yn seiliedig ar reoli ar lefel *ecosystem* (Deddf yr Amgylchedd)
- **Rheoli ar lefel yr ecosystem** - yn dilyn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol;
- **Yr egwyddor atal** - un o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd) ac un o'r 5 ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- **Yr egwyddor ragofalus** - un o brif egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd)
- **Graddfa** - un o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd)
- **Integreiddio** - un o'r 5 ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ac un o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd);
- **Peidio â chaniatáu dirywiad** - a adlewyrchir yn amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd);
- **Cydnherth** - un o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd)
- **Cyfranogaeth y cyhoedd** - un o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd) ac un o'r 5 ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- **Cydweithio** - un o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Deddf yr Amgylchedd) ac un o'r 5 ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

## Bylchau yn yr Egwyddorion Amgylcheddol

2.24 Mae'r camau sydd wedi'u cymryd yng Nghymru dros y 7 mlynedd diwethaf yn golygu bod y sefyllfa yng Nghymru, wrth inni adael yr UE, yn wahanol iawn i sefyllfa gweddill y DU. Mae fframwaith trosfwaol clir i ddatblygu cynaliadwy yn neddfwriaeth sylfaenol Cymru, fel ag sydd i amcanion datblygu cynaliadwy yn neddfwriaeth yr UE. Mae'n gyson hefyd â fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan gynnwys ei Nodau Byd-eang. O fewn y fframwaith hwn, mae egwyddorion amgylcheddol allweddol hefyd wedi'u creu yng Nghymru, yn Neddf yr Amgylchedd. Mae'r ddeddfwriaeth Gymreig wedi ymgorffori hefyd yr amcanion allweddol a geir yn y TFEU, fel defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ddarbodus a rhesymegol<sup>17</sup>.

Tabl 1: Cymharu Egwyddorion Amgylcheddol yr UE â Deddfwriaeth Sylfaenol Gymreig

Egwyddorion yr UE	Deddfwriaeth Sylfaenol Gymreig
<b>Atal</b>	Atal (yn y 5 ffordd o weithio ac egwyddorion SMNR)
<b>Rhagofalus</b>	Mae egwyddor yr UE wedi'i hymgorffori yn yr egwyddorion SMNR
<b>Y Llygrwr sy'n Talu</b>	Dim byd cyfatebol
<b>Unioni yn y tarddle</b>	Dim byd cyfatebol

2.25 O safbwynt pedair egwyddor amgylcheddol yr UE, mae'r egwyddor atal yn amlwg bresennol. Hefyd, er nad oes cyfeiriad penodol at yr egwyddor ragofalus, mae'r fframwaith yn Neddf yr Amgylchedd wedi'i hymgorffori. Hynny am i'r egwyddorion SMNR gael eu dylunio i ymgorffori pob agwedd ar yr egwyddor ragofalus, ar sail cynnwys canllawiau Comisiwn yr UE.

2.26 O'i gymharu â fframwaith presennol yr UE, nid oes darpariaeth ar gyfer pob un o egwyddorion amgylcheddol yr UE yng Nghymru, sef yn benodol yr egwyddorion amgylcheddol sy'n ymwneud â'r 'llygrwr sy'n talu' ac 'unioni yn y tarddle'. Mae yna wahaniaeth hefyd yn eu cwmpas. Er bod y 5 ffordd o weithio'n gymwys i bob maes polisi ac i'r 44 o gyrff cyhoeddus datganoledig a enwir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (*gweler Atodiad 2*), mae cwmpas egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn fwy cyfyng. Maent yn gymwys yn unig i swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â datblygu, llunio a gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, ond ddim yn fwy cyffredinol na hynny.

<sup>17</sup>Erthygl 191(1), Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd

## Cau'r bwlch egwyddorion

2.27 Y cynnig felly yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ychwanegu egwyddorion amgylcheddol yr UE a fydd yn diflannu ar ôl i'r DU adael yr UE, sef *Unioni yn y Tarddle a'r Llygrwr sy'n Talu*.

2.28 Bydd angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n ategu ac yn cryfhau'r egwyddorion amgylcheddol sydd eisoes yn rhan o Ddeddf yr Amgylchedd. Bydd gofyn iddyn hefyd fod yn gyson â chyd-destun trosfwaol datblygu cynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .

### Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?

- Unioni yn y tarddle;
- Y llygrwr sy'n talu

2.29 Gan fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) eisoes yn darparu ar gyfer cymhwyso egwyddorion amgylcheddol statudol, gan ddilyn canllaw presennol yr UE ar yr egwyddor ragofalus, nid oes angen datganiad ychwanegol ar sut i gymhwyso'r egwyddorion. Cynigir felly y dylid parhau i ddefnyddio'r deddfwriaeth bresennol i osod y cyd-destun ar gyfer cymhwyso egwyddorion SMNR. Yr egwyddorion yw'r mecanwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Trwy gynnwys yr egwyddorion ychwanegol o fewn y fframwaith hwn, caiff yr egwyddorion eu hymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol gan ddarparu fframwaith tymor hir ar gyfer eu cymhwyso.

### Cwestiwn 2: Yn ogystal â'r egwyddorion sydd eisoes mewn deddfwriaeth sylfaenol Gymreig a'r ddwy a ddisgrifir yng Nghwestiwn 1, a ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?

#### Mynd i'r afael â chwmpas egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Cymru

2.30 Trwy ymgorffori dwy egwyddor amgylcheddol goll yr UE yn fframwaith presennol Cymru, byddwn wedi cau'r bwlch egwyddorion. Ond gan fod cwmpas cymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi'i gyfyngu i Cyfoeth Naturiol Cymru ac i Weinidogion Cymru o ran y Polisi Adnoddau Naturiol, ceir bwlch o ran eu cymhwyso i gyrff cyhoeddus ehangach.

2.31 Er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus o ran cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol yn glir, cynigir bod y gofyn i gadw at yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei gymhwyso i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Byddai hynny'n sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus, all ddod o dan gylch gwaith trefniadau llywodraethu newydd, yr un amcanion a sail cyson dros reoli adnoddau naturiol Cymru. Bydd hynny'n eu helpu i wneud penderfyniadau ar y cyd.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?**

**Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

## Trefniadau Pontio

2.37 Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion amgylcheddol presennol yn parhau'n gymwys ac yr ymdrinnir â hyn mewn ffordd gyson wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei datblygu, byddwn:

- Yn parhau i ddilyn y 5 ffordd o weithio wrth ddatblygu pob polisi;
- Yn parhau i gadw at yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth roi'r Polisi Adnoddau Naturiol presennol ar waith ac wrth ei adolygu; a
- Cadw at 4 egwyddor amgylcheddol yr UE

### **Cwestiynau 1 i 4 o 18**

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?**

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?**

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?**

**Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**

## **3: Atebolrwydd, Hygyrchedd a Threfniadau Gorfodi**

3.1 Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd pobl yn colli unrhyw hawliau o ganlyniad i adael yr UE. Rydyn ni wedi ymrwymo hefyd i barhau i roi'r gyfraith amgylcheddol ar waith ac i barhau i gynnal a gwella safonau. Yr ymrwymadau hyn yw hanfod ein gwaith yn hyn o beth.

3.2 Yn sgil gadael yr UE, ni fydd cyfraith a pholisi amgylcheddol sy'n tarddu o'r UE bellach yn destun goruchwyliaeth sefydliadau'r UE a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Mae perthynas y DU â'r UE yn destun trafod ar hyn o bryd, ac mae'n bosib y bydd gofyn am drefniadau atebolrwydd a goruchwyllo mewn cytundeb yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ymrwymadau amgylcheddol yn cael eu bodloni. Mae angen i'r ffordd yr awn ati i gau bylchau yn ein trefniadau llywodraethu ystyried amgylchiadau wrth iddyn nhw newid.

3.3 Yng Nghymru, cyrff fel Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n goruchwyllo cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd a chreodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) swyddfa annibynnol - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - i roi cyngor a help i gyrff cyhoeddus Cymru ym maes datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd eisoes wedi creu un corff amgylcheddol sengl, Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei bwrpas a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yw gweithio i sicrhau ein bod yn rheoli ac yn defnyddio'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd yr holl gyrff hyn yn dal i ddarparu'r gwasanaethau goruchwyllo hyn ar ôl inni adael yr UE.

3.4 Yn y rhan hon o'r ymgynghoriad, nid ydym yn cynnig model penodol i gymryd lle rôl droswladol Comisiwn yr UE a sefydliadau eraill yr UE ond hoffem glywed eich barn am y bwlch llywodraethu a ddaw i Gymru a'ch barn ynghylch beth fyddai'n gweithio fel fframwaith llywodraethu effeithiol i Gymru a fydd yn gyson â'r trefniadau llywodraethu presennol, ein fframwaith deddfwriaethol ac a fydd yn gallu ymateb i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE.

#### Y sefyllfa bresennol yn yr UE

3.5 Comisiwn yr UE sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol yr UE ac am ei gorfodi<sup>18</sup> (*Gweler Atodiad 4 am restr o swyddogaethau Comisiwn yr UE*). Ymhlith ei swyddogaethau y mae monitro cyfraith amgylcheddol, derbyn cwynion gan bobl a lle bo angen, mynd ag aelod-wladwriaeth sydd wedi torri'r rheolau i Lys Cyfiawnder yr UE.<sup>19</sup> Gallai'r Llys Cyfiawnder roi dirwyon mawr ar aelod-wladwriaeth sy'n torri cyfraith yr UE.

3.6 Yn gryno felly, mae Comisiwn yr UE yn:

- **Monitro' a yw'r gyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith** trwy gyfeirio at setiau o ddangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau gweithredu sy'n cael eu cyflwyno i Gomisiwn yr UE. Gyda'i gilydd, ynghyd â chyhoeddiadau amgylcheddol eraill, maen nhw'n disgrifio'r modd y mae cyfreithiau amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith yn yr aelod-wladwriaeth;
- **Derbyn cwynion gan y bobl** - mae cyfraith yr UE yn rhoi'r pŵer i bobl roi gwybod i Gomisiwn yr UE os gwelant cyfraith yr UE yn cael ei thorri. Caiff y Comisiwn ddewis gweithredu ar sail yr wybodaeth sy'n dod i law, a gallai hynny arwain yn y pendraw at achos ger bron Llys Cyfiawnder yr UE. Mae'r gwasanaeth sy'n gyfrifol am y broses yn ddi-dâl, yn syml ac yn effeithiol; ac yn
- **Cymryd camau gorfodi** os bydd aelod-wladwriaeth yn torri amod mewn Cytundeb. Gall olygu mynd ag aelod-wladwriaeth ger bron Llys Cyfiawnder yr UE. Mae sawl ffordd o fynd ag achos ger bron y Llys Cyfiawnder:
  - o lysoedd cenedlaethol yr aelod-wladwriaeth er mwyn dehongli cyfraith yr UE;
  - gall Comisiwn yr UE ddwyn achos yn erbyn gwlad yn yr UE am dorri un o ymrwymadau'r UE;

<sup>18</sup>Erthygl 17, Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ac Erthyglau 234, 244 i 250, 290 a 291 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd


<sup>19</sup> Erthyglau 258, 259 a 260 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd

- gall un wlad yn yr UE fynd â gwlad arall yn yr UE i'r llys; neu
- gall y llys gynnal arolwg barnwrol o gyfraith yr UE. Mae hynny'n golygu bod ganddo'r pŵer i adolygu rheoliadau a chyfarwyddbau'r UE a gwneud yn siwr eu bod yn cydymffurfio â chytundebau'r UE ac egwyddorion cyffredinol y gyfraith.

3.7 Gall Llys Cyfiawnder yr UE ofyn am unioni'r tramgwydd a gosod sancsiynau ar aelod-wladwriaeth am dorri cyfraith. Ond bu cryn feirniadu ar y Llys Cyfiawnder am yr amser y mae'n ei gymryd i ystyried achosion a phenderfynu arnynt. Gall gymryd blynyddoedd i ddyfarnu'n derfynol ar fater.

3.8 Rhan bwysig o broses yr UE yw na chyfyngir ar y cwynion a wneir i Gomisiwn yr UE a'u clywed gan y Llys Cyfiawnder i sgôp yr hyn y gellir ei glywed ac nid ystyrir y drefn briodol yn unig ond hefyd a oes tramgwydd wedi digwydd neu beidio.

3.9 Gyda'i gilydd, mae Comisiwn yr UE a Llys Cyfiawnder yr UE yn darparu amrywiaeth eang o fecanweithiau monitro, cydymffurfio a gorfodi ar gyfer llywodraethu cyfreithiau amgylcheddol yr UE a'u rhoi ar waith. Rhan dyngedfennol o'u gwaith yw eu bod yn cynnig ffordd i bobl a busnesau'r DU gael cyfiawnder pan dramgwyddir eu hawliau a'u hymrwymiadau o dan gyfraith yr UE.



**Diagram 2: Strwythur Comisiwn yr UE**



## Atebolrwydd, Hygyrchedd a Gorfodi yng Nghymru

3.10 Ar lefel y DU a lefel Cymru, ceir systemau a gweithdrefnau ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am eu gwaith ac i'w herio os credir eu bod wedi tramgwyddo'u pwerau a'u dyletswyddau cyfreithiol neu heb wneud yr hyn y dylen nhw ei wneud. Mae *Atodiad 5* yn rhestru'r cyrff sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn rhoi disgrifiad bras o'u swyddogaethau. Fe welwch grynodedb o'r cyrff hyn yn *Nhabl 2*.

*Tabl 2: Mekanweithiau yng Nghymru i sicrhau atebolrwydd amgylcheddol*

<b>Math</b>	<b>Corff</b>
<b>Seneddol</b>	Cynulliad Cenedlaethol Cymru  Pwyllgorau'r Cynulliad (e.e. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig)
<b>Cyrff goruchwyllo</b>	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru
<b>Pwyllgorau cynghori</b>	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (corff y DU); Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC) (corff y DU)
<b>Cyrff atebolrwydd a goruchwyllo meysydd polisi eraill</b>	Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (corff y DU); Comisiynydd Gwybodaeth (corff y DU)
<b>Cyrff rheoleiddio a gweithredol</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru Y Sefydliad Rheoli Morol (corff y DU)

3.11 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Bwyllgorau fydd y corff fydd yn gyfrifol, fel ein deddfwrfa, am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif o hyd a bydd ein deddfwriaeth amgylcheddol yn aros ac yn cael ei gorfodi gan y cyrff rheoleiddio sy'n bod eisoes. Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'n dal i dderbyn cwynion gan bobl am y ffordd y bydd cyrff cyhoeddus Cymru'n ysgwyddo'u swyddogaethau a bydd y llysoedd yn dal yn adolygu cyfreithlondeb penderfyniadau a gweithredoedd cyrff cyhoeddus.

3.12 Gan fod y drefn egwyddorion yng Nghymru'n wahanol, mae rhai gwahaniaethau sylfaenol hefyd yn y ffordd y mae rhai cyrff yng Nghymru yn cael eu trefnu, gan adlewyrchu'n hagwedd flaengar at ddatblygu cynaliadwy a'r mecanweithiau ar gyfer monitro ac adrodd.

### Cyrff Cymru

3.13 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddau gorff allweddol yng Nghymru.



### *Cyfoeth Naturiol Cymru*

3.14 CNC yw'r prif rheoleiddiwr amgylcheddol ar lawr gwlad yng Nghymru; ei fandad yw 'cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru' gan gadw at yr un egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ag y gwnaethom ni eu trafod yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Yn hyn o beth, mae CNC yn cyflawni nifer o swyddogaethau cynghori, rheoleiddio, ymateb a rheoli, ymhlith eraill. Mae CNC yn delio â chwynion am niweidio'r amgylchedd a'r corff yw'r pwynt cysylltu cyntaf i'r rheini sydd am atal neu unioni difrod i'r amgylchedd.

3.15 Yn ogystal, CNC sy'n cynhyrchu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a rhaid i hwnnw gynnwys: ei asesiad o'r graddau y llwyddir i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy; ei asesiad o fioamrywiaeth; a'r tueddiadau a'r ffactorau y gall eu gweld sy'n effeithio ar sefyllfa adnoddau naturiol, ymhlith eraill.

### *Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*

3.16 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi creu rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, awdurdod annibynnol yng Nghymru, sy'n edrych a yw cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n cyflawni amcanion llesiant ac yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy Caiff y Comisiynydd adolygu sut mae corff cyhoeddus yn ystyried effaith tymor hir ei benderfyniadau, a gwneud argymhellion ar sail ei ganfyddiadau.

3.17 Mae'r Comisiynydd hefyd yn edrych a yw cyrff cyhoeddus Cymru'n cyflawni'r amcanion llesiant ac yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ond nid yw pwerau'r Comisiynydd yn cynnwys rhoi'r gyfraith ar waith ac mae rôl y Comisiynydd yn ymwneud fwy ag annog cyrff i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Monitro ac Adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd

3.18 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno dyletswyddau adrodd a monitro newydd (gweler *Tabl 3*) sy'n helpu i fonitro cynnydd y nodau llesiant a rheoli adnoddau naturiol.

Tabl 3: Monitro ac Adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd

Dogfen	Pwrpas	Awdur
Dangosyddion Cenedlaethol <sup>20</sup> (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol )	Mesur y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r nodau llesiant gan nodi drwy hynny gynnydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Gellir eu mesur ar lefel Cymru neu ar lefel rhan o Gymru. <b>Dyma ddangosyddion amgylcheddol:</b> 1) crynodiadau deunydd carbon ac organig yn y pridd; 2) ôl troed ecolegol Cymru; 3) faint o wastraff y person a gynhrychir nad yw'n cael ei ailgylchu; 4) allyriadau nwyon tŷ gwyr yng Nghymru; 5) allyriadau nwyon tŷ gwyr y gellir eu priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau'r byd yng Nghymru; 6) ardaloedd lle ceir ecosystemau iach yng Nghymru; 7) statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru; 8) canran y dŵr wyneb a'r dŵr daear sydd â statws cyffredinol da neu uchel.	Gweinidogion Cymru
Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd)	Bydd yn rhoi inni asesiad o gyflwr adnoddau naturiol Cymru ac yn dangos ym mha gyflwr y mae'r adnoddau naturiol hynny a faint ohonynt sydd ar gael. Bydd yn dangos hefyd a ydynt yn abl i ymateb i'r pwysau sydd arnynt ac i addasu er mwyn ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n gyfrwng i fonitro'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyhoeddi amcanion llesiant a datganiad (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Bydd pob corff yn datblygu ei amcanion gan ddangos sut y bydd yn gwella llesiant amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Cymru, yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyhoeddi datganiad sy'n esbonio pam ei fod yn teimlo y bydd yr amcan yn ei helpu i gyflawni'i nodau a sut y mae wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio.	Yr holl gyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru
Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) <sup>21</sup>	Adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i gyflawni'r 7 nod llesiant trwy ddefnyddio'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Gellir defnyddio'r adroddiad hefyd i ystyried cyfraniad Cymru at <b>Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.</b>	Gweinidogion Cymru

<sup>20</sup> <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy>

<sup>21</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?skip=1&lang=cy>

Adroddiadau Blynyddol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Adroddiadau ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan bob corff cyhoeddus i gyflawni'i amcanion llesiant.	Yr holl gyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru
Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Cyhoeddi adroddiad ar asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai gyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn cyflawni'r nodau llesiant	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)	Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Wrth wneud, rhaid defnyddio unrhyw dystiolaeth a geir yn y 'Datganiadau Ardal' a gynhyrchwyd gan CNC am yr ardal dan sylw. Pennu amcanion fydd yn cael y gorau o gyfraniad y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus at y nodau llesiant. Bydd pob Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'i gynllun i ddangos unrhyw gynnydd.	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

3.19 Ar hyn o bryd y prif fecanwaith ar gyfer herio methiant i roi cyfraith amgylcheddol ar waith neu benderfyniad gan gorff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yw trwy adolygiad barnwrol. Caiff unrhyw un sydd â safiad priodol ofyn am adolygiad barnwrol, sy'n golygu gofyn i lys ystyried cyfreithlondeb gweithred gan gorff cyhoeddus. Caiff y llys roi gorfodeb ond ni chaiff roi dirwy.

## Bylchau yn y Trefniadau Llywodraethu yng Nghymru

3.20 Mae nifer o gyrff yn gweithredu yng Nghymru sy'n dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif, tra bo cyrff llywodraethu fel yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon y Sector Cyhoeddus yn goruchwyllo cyrff cyhoeddus Cymru. Yn gyffredinol:

- cawsant eu sefydlu i fynd i'r afael â meysydd mwy penodol eu ffocws, megis defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon, na rhoi cyfraith amgylcheddol ar waith. Nid ydynt felly'n gyfrifol am graffu bod cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yn briodol;
- nid oes ganddyn nhw felly'r arbenigedd i fynd i'r afael â phynciau amgylcheddol cymhleth, yn enwedig yng Nghymru, yn unol â gofynion rheoli adnoddau naturiol Deddf yr Amgylchedd (Cymru);
- nid oes ganddynt swyddogaethau cyfatebol i orfodi na monitro'n barhaus, sy'n cynnwys mynd â chorff cyhoeddus i lys am beidio â gwneud ei ddyletswydd o ran yr amgylchedd.

3.22 O ran gadael yr UE, daw'r trefniadau llywodraethu sy'n tarddu o Gomisiwn yr UE a Llys Cyfiawnder yr UE i ben yng Nghymru, a heb newid y sefyllfa, gallai hynny arwain at dri bwlch posib yng Nghymru (gweler Atodiad 6), sef colli:

- Atebolrwydd annibynnol - ni fyddai yna gorff goruchwyllo annibynnol i fod yn gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y mae llywodraethau neu gyrrff cyhoeddus eraill yn rhoi cyfreithiau a pholisïau amgylcheddol ar waith;
- Mecanwaith syml a rhad i gwyno - ni fyddai trefn gwyno syml a di-dâl yr UE yn bod mwyach;
- Mecanweithiau gorfodi - mae gan yr UE drefniadau a mecanweithiau cwyno ffurfiol ac anffurfiol er mwyn ceisio unioni anghydfodau trwy negodi. Gall droi hefyd at y Llys Cyfiawnder, all arwain at ddirwyon sylweddol os na chydymffurfir â dyfarniad y llys.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?**

### Cau'r Bylchau yng Nghymru

3.23 Mae gadael yr UE yn gyfle i greu strwythur llywodraethu i Gymru sydd:

1. yn ategu cyd-destun cyffredinol datblygu cynaliadwy, a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
2. yn rhoi ar waith y fframwaith statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a roddwyd yn ei le gan Ddeddf yr Amgylchedd;
3. yn ategu ac yn gydnaws â'r cyrrff sy'n bod eisoes yng Nghymru, a sefydlwyd i graffu, cynghori a dwyn cyrrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfrif (fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol);
4. yn gyson â'r mecanweithiau adrodd a monitro a ddarperir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd;
5. yn parchu rôl y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif;
6. yn creu fframwaith cydlynus i fynd i'r afael â'r angen am drefniadau llywodraethu ar lefel genedlaethol;
7. yn annibynnol a diduedd; ac
8. yn helpu i gynnal a gwella safonau amgylcheddol.

3.24 Dyma gyfle i gael sgwrs eang am lywodraethu amgylcheddol. Rydyn ni felly yn gofyn ichi am eich barn am y ffordd fwyaf effeithiol a chydlynus o wella'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys sut i wella'r strwythurau presennol neu a ddylid sefydlu corff goruchwyllo penodol. O ran y strwythur llywodraethu newydd, rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn am y ffactorau allweddol y byddai eu hangen i sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol a chymesur yn hytrach na gofyn ichi nodi'r model y mae angen ei gyflwyno.

## Strwythurau Presennol

3.25 Bydd angen i drefniant llywodraethu cydlynol ac integredig adlewyrchu cydestun penodol Cymru gan gynnwys ei mecanweithiau atebolrwydd.

3.26 Fel y gwelwch yn *Atodiad 5*, mae nifer o gyrff eisoes yn cyflawni swyddogaethau llywodraethu pwysig yng Nghymru. Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael derbyn cwynion am y modd y mae gyrff cyhoeddus yn cyflawni'u swyddogaethau ac mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn adrodd ar yr hyn y mae gyrff cyhoeddus wedi'i wneud ac y dylent ei wneud o ran pennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

3.27 Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn am rôl ein gyrff atebolrwydd mewn strwythur llywodraethu gwell ar ôl inni adael yr UE. Er na chafodd y gyrff hyn eu sefydlu i wneud gwaith llywodraethu amgylcheddol, maen nhw'n cyfrannu at oruchwylio gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n gallu effeithio ar statws yr amgylchedd.

### **Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai gyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?**

#### Trefniadau Newydd

3.28 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r prif elfennau y mae'n rhaid wrthynt i allu goruchwylio'n annibynnol, effeithiol a chywir. Mae'r bennod hon yn ystyried beth ddylai'r ffactorau hynny fod, waeth pa fath o gorff allai weithredu fel corff goruchwylio yng Nghymru.

## Rôl, Cwmpas a Chyfansoddiad corff sy'n gweithredu yng Nghymru

### **Rôl corff sy'n gweithredu yng Nghymru**

3.26 Byddai'r corff yn rhoi goruchwyliaeth annibynnol o'r gyfraith sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd sy'n gyson â deddfwriaeth sylfaenol Cymru. Amcan corff o'r fath felly fyddai gwarchod adnoddau naturiol Cymru trwy sicrhau bod polisi a deddfwriaeth yn cael eu datblygu yn unol â'r egwyddorion yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (gan gynnwys egwyddorion amgylcheddol yr UE a gollwyd) ac y gwneir hynny yn unol â'r rheoliadau amgylcheddol sy'n eu cynnal.

3.27 Felly, ei nodau fyddai:

- Sicrhau bod polisi a deddfwriaeth yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n cynnal a chyfoethogi adnoddau naturiol Cymru yn unol â'r egwyddorion mewn deddfwriaeth Gymreig (e.e. y rheini y cyfeiriwyd atynt eisoes yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru));
- Sicrhau bod y deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, yn unol â'r amcan o gynnal a chyfoethogi adnoddau naturiol Cymru;
- Gweithredu fel cynghorydd i gyrff cyhoeddus ar sut i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;

- Gweithredu'n ddiuedd wrth asesu sut i roi deddfwriaeth amgylcheddol Gymreig ar waith yn effeithiol;
- Gweithredu'n ddiuedd wrth ymdrin â chwynion y bobl.

3.28 Byddai'r nodau hyn yn helpu i bennu pwrpas corff goruchwylio ac yn gwbl gyson â'r hyn a gynigir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a hefyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gyfrannu at y cyd-destun trosfwaol a ddarperir gan y Ddeddf honno. Byddai hefyd yn gyson hefyd â fframweithiau perthnasol y Cenedloedd Unedig y mae'r Deddfau'n deillio ohonyn nhw.

### **Cwestiwn 7: A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?**

#### **Cwmpas corff sy'n gweithredu yng Nghymru**

3.29 Mae'n bwysig pennu cwmpas clir i'r corff, a gallai'r ffodd integredig o weithio a gynigir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r diffiniad o 'adnoddau naturiol' yn adran 2 helpu yn hyn o beth:

*Yn y Rhan hon, mae "adnoddau naturiol" yn cynnwys y canlynol (ond nid yw wedi ei gyfyngu iddynt)—*

*(a) anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill;*

*(b) yr aer, dŵr a phridd;*

*(c) mwynau;*

*(d) nodweddion a phrosesau daearegol;*

*(e) nodweddion ffisiograffigol;*

*(f) nodweddion a phrosesau hinsoddol.*

3.30 Byddai hyn yn golygu y byddai cwmpas corff yn cynnwys: dŵr, aer, cadwraeth natur, y newid yn yr hinsawdd, pridd, coedwigaeth, cemegolion, plaladdwyr, gwastraff, yr economi gylchol a lle'u gwelir yn gorgyffwrdd â meysydd polisi eraill, er enghraifft lle bo dŵr ac amaethyddiaeth yn gorgyffwrdd.

3.31 Trwy sicrhau bod corff yn cwmpasu'r cyfan, byddwn yn gallu llwyr ddiogelu amgylchedd Cymru, gan sicrhau nad oes unrhyw elfen yn cael ei gadael allan o'r trefniant llywodraethu ac yr atgynhyrchir cwmpas cyfredol strwythur llywodraethu'r UE. Drwy hynny, byddai'r corff, yn ogystal â chraffu ar deddfwriaeth yr UE a fydd wedi'i chadw neu ei throsi o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn craffu hefyd ar yr holl deddfwriaeth ddomestig hefyd sy'n ymwneud â'r meysydd uchod.

3.32 Mewn meysydd lle ceir corff eisoes sy'n rhoi cyngor, er enghraifft, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, sydd hefyd yn cyflawni swyddogaethau ar lefel Cymru<sup>22</sup>, bydd angen diffinio rolau'n glir i osgoi gorgyffwrdd a dyblygu. Mae swyddogaeth gynghori'r corff hwn, yng Nghymru, wedi'i chysoni â'r strwythur datblygu cynaliadwy.

3.33 Yng Nghymru, rydyn ni'n cydnabod y berthynas glos rhwng yr holl feysydd polisi ac yn benodol effaith hinsawdd sy'n newid ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Ar ben hynny, byddai gweithio o fewn y cwmpas a gynigir yn sicrhau ein bod yn deddfu o fewn ein cymwyseddau datganoledig gan sicrhau cysondeb â'r setliad datganoledig - mae hynny'n bwysig.

### **Cwestiwn 8: Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?**

3.34 Mae cwmpas gwaith corff yn ymwneud hefyd â'r cyrff y gallai eu goruchwylio. Cynigir bod swyddogaethau cynghori a goruchwylio corff yn cwmpasu'r cyrff canlynol:

- Gweinidogion Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- awdurdodau lleol Cymru; a
- Gweinidogion y Goron (e.e. yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)).

### **Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrff a gynigir yn briodol?**

### **Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu bod yna gyrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?**

### **Cyfansoddiad corff sy'n gweithredu yng Nghymru**

3.35 Yn ein barn ni, dylai corff goruchwylio fod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Byddai'r canlynol yn hwyluso ei annibyniaeth:

- Bod yn atebol am ei weithgareddau yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol,
- Cael ei archwilio'n annibynnol gan gorff fel Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Bod ei strwythurau penodi'n annibynnol; a
- Bod ei ffynonellau cyllido'n annibynnol.

3.36 Bydd gofyn i'r corff weithredu hefyd mewn ffordd dryloyw a diduedd.

3.37 Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn ynghylch sut y dylai corff gael ei gyfansoddi, er enghraifft a ddylai fod yn gomisiwn neu'n gomisiynydd neu a fyddai endid arall yn fwy addas ar gyfer cyflawni ei rolau a'i amcanion?

### **Cwestiwn 11: Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwylio fod?**

---

<sup>22</sup>Gweler Rhan 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan adran 50(3) Deddf 2016, rhaid i UKCCC (sef y corff cynghori i Gymru - adran 44) roi ystyriaeth i set benodol o faterion o dan adran 32(3), sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ac adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Swyddogaethau corff sy'n gweithredu yng Nghymru

3.38 Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn ynghylch pa swyddogaethau y bydd angen i gorff eu cyflawni er mwyn cyflawni'r rôl a'r nodau a ddisgrifir uchod a chau'r bylchau.

### Cynghori

3.39 Er mwyn helpu cyrff cyhoeddus, cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rhoi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith, mae rôl bosibl i'r corff fel cynghorydd. Gallai'r corff hwn roi cyngor arbenigol ynghylch sut y gallai cyrff cyhoeddus gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sut y gallent gyflawni eu swyddogaethau eraill mewn ffordd a fydd yn cryfhau ecosystemau ymhellach a thrwy hynny, helpu i gyfrannu at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.40 Trwy weithio â chyrrff cyhoeddus a'u cynghori'n fuan, gall helpu cyrff cyhoeddus i wneud eu dyletswyddau ac o bosibl, lleihau nifer eu tramgwyddau. Amcan y cynnig hwn fyddai sicrhau bod corff yn gallu gweithredu'n fuan trwy roi cymorth lle a phryd fo'i angen. Sail hynny yw bod mesurau ataliol yn fwy effeithiol a llawer yn rhatach na mynd i lys.

3.41 Gellid gofyn am y cyngor mewn dwy ffordd:

- Cyrff cyhoeddus i ofyn i'r corff am gyngor; a/neu
- Bod y corff, fel rhan o'i waith craffu a chydymffurfio, yn gweithio gyda chorff cyhoeddus i roi cyngor buan ar sut i unioni tramgwyddau posibl.

3.42 Gallai rhan o'r rôl gynghori olygu rhoi arweiniad yn ôl y gofyn ac annog cyrff cyhoeddus i rannu arferion da. Gallai'r corff droi at arbenigedd a gwybodaeth cyrff eraill i'w helpu i wneud ei waith a dewis yr arbenigedd allanol mewn ffordd ddiduedd ac annibynnol.

## **Cwestiwn 12: A ddylai corff goruchwyllo gael gweithredu fel corff cynghori hefyd?**

### **Craffu**

3.43 Mae nifer o gyrff yng Nghymru eisoes yn cyflawni swyddogaethau monitro ac adrodd, er enghraifft mae CNC yn cynhyrchu adroddiad am sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru <sup>23</sup>(a bydd yn dal i'w gyhoeddi ar ôl inni adael yr UE). Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n craffu ar weithgareddau Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus Cymru ac mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Archwilydd

---

<sup>23</sup>Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 - <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>



Cyffredinol hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu (*gweler Atodiad 5*). Ni ddylai corff goruchwyllo wrthdaro â'r strwythurau sy'n bod, ond dylai eu hategu a'u cryfhau.

3.44 Gallai swyddogaethau cyffredinol corff goruchwyllo gynnwys craffu ar ddeddfwriaeth er mwyn ateb unrhyw gwynion am weithredu deddfwriaeth amgylcheddol. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, dylai gael defnyddio adroddiadau a gyhoeddir gan gyrff eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a chael comisiynu neu ofyn am ragor o wybodaeth oddi wrth gyrff cyhoeddus eraill yn ôl y gofyn.

3.45 Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn am hyd a lled y swyddogaethau hyn ac a ddylai corff gael cynnal adolygiadau thematig o'r modd y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

**Cwestiwn 13: A ddylai corff goruchwyllo gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?**

**Cwestiwn 14: Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?**

### **Derbyn Cwynion**

3.46 Yng Nghymru, rydyn ni'n credu na ddylai fod unrhyw grebachu ar hawliau pobl o ganlyniad i adael yr UE. Mae gan bobl Cymru nifer o opsiynau eisoes ar gyfer ymdrin â'u pryderon, er enghraifft trwy drefniadau cwynion cyrff cyhoeddus (megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) neu drwy gwyno wrth Aelod Cynulliad neu drwy ddilyn trefniadau cwynion y Cynulliad ei hun. Ond fel ag a ddisgrifir yn y ddogfen hon, mae yna fylchau er gwaethaf cyfraniad y cyrff hyn at fonitro cyrff cyhoeddus.

3.47 Er y bydd ein trefniadau cwyno'n parhau, bydd yna fylchau o hyd gan nad oes gan ein cyrff presennol ffocws amgylcheddol penodol a bod eu prosesau'n gyfyng, yn wahanol i'r pwerau gorfodi a ddarperir ar lefel yr UE. Er mwyn sicrhau proses gydlynol, rydym felly'n gofyn ichi am eich barn am y swyddogaethau y bydd angen eu neilltuo i gorff goruchwyllo iddo allu derbyn cwynion pobl a'r gymdeithas sifig ynghylch gweithredu cyfraith amgylcheddol.

3.48 Bydd gofyn diffinio swyddogaethau'r corff hwn yn ddigon clir i sicrhau na fydd dyblygu na gwrthdaro â swyddogaethau cwyno cyrff cyhoeddus eraill Cymru.

3.49 O ran ei swyddogaethau cwyno, dylai corff goruchwyllo allu gwneud y canlynol:

- cynnal ymchwiliadau a gofyn am wybodaeth;
- asesu dilysrwydd cwynion a meddu ar y disgresiwn i arfer ei bwerau mewn achosion priodol yn hytrach na dyletswydd i weithredu yn achos pob cynw. Byddai hynny'n bwysig i wneud yn siwr ei fod yn blaenoriaethu ei adnoddau i ddelio â'r rheini sy'n peri'r gofid mwyaf;

- gwneud argymhellion ar sail ei ganfyddiadau.

3.50 Fel y system bresennol, dylai fod yn ddi-dâl ac yn hawdd ei defnyddio.

**Cwestiwn 15: Pa bwerau ddylai corff feddu arnyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?**

### **Gorfodi**

3.51 Yn unol â'r setliad datganoli, rydym yn gofyn ichi am eich barn ynghylch sut i roi mesurau gorfodi effeithiol ar waith.

### Mecanweithiau anffurfiol a ffurfiol - proses

3.52 Dylai corff, fel Comisiwn yr UE, allu defnyddio mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol i gael hyd i atebion i broblemau sydd wedi'u nodi naill ai trwy gŵyn neu drwy ei ymchwilio ei hun. Gallai ddechrau gyda thrafodaeth anffurfiol. Lle nad yw hyn yn datrys y broblem, yna gellid dilyn trywydd mwy ffurfiol.

- Anffurfiol - Yn unol â'r 5 ffordd o weithio, lle caiff problem ei nodi, dylai corff goruchwilio a'r llywodraeth neu gorff cyhoeddus arall gydweithio â phartïon perthnasol eraill ymhlith eraill i geisio'i datrys, gan roi pwyslais ar atal ac ar ateb tymor hir.
- Ffurfiol - Pan fydd corff goruchwilio wedi gorfod dilyn trefn ffurfiol yn sgil methiant ei ymchwiliadau i gael hyd i ateb trwy fecanweithiau anffurfiol, fel rhai tebyg i system yr UE, gallai:
  - roi hysbysiad ffurfiol i ofyn am wybodaeth gan roi terfyn amser ar gyfer yr ateb a dylai'r corff sy'n destun ymchwiliad gydweithio â'r corff goruchwilio;
  - rhoi hysbysiad o'i farn a'i argymhellion (tebyg i'r farn resymedig gan Gomisiwn yr UE) gan ofyn am ymateb, o fewn amserlen o'r gweithredoedd sydd i'w cyflawni gan y corff cyhoeddus.
  - cyfeirio'r mater at y llysoedd, os bydd y tramgwydd yn para.

**Cwestiwn 16: Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwilio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?**

## Gweithredoedd Gorfodi

3.53 Ni ddylid troi at y llysoedd fel dull gorfodi ond pan fydd pob dull arall wedi methu - dim ond nifer fach o achosion sy'n cael eu clywed gan Lys Cyfiawnder yr UE. Ar hyn o bryd, y mecanwaith unioni yw'r adolygiad barnwrol sydd wedi'i feirniadu fel mecanwaith priodol i gymryd lle'r trefniadau ar gyfer delio â thor-reol sydd ar gael i Lys Cyfiawnder yr UE<sup>24</sup>.

3.54 Rydym am wneud yn siwr bod camau atal mewn cysylltiad â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn effeithiol ac yn briodol. Yn ein barn ni, rhaid wrth ddulliau gorfodi credadwy, gan gynnwys mesurau interim os oes angen i atal difrod pellach neu fecanweithiau ar gyfer adfer difrod amgylcheddol.

3.55 Rydym yn gofyn ichi beth yn eich barn chi fyddai'r camau gorfodi mwyaf effeithiol y gellid eu rhoi i gorff goruchwyllo yng Nghymru

### **Cwestiwn 17: Pam gamau gorfodi yn eich barn chi ddylai fod ar gael?**

---

<sup>24</sup>Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Trefniadau ac Egwyddorion Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit, Mehefin 2018

### **Cwestiynau 5 i 17 o 19**

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?

**Cwestiwn 6:** Pa rôl ddylai cyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?

**Cwestiwn 7:** A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?

**Cwestiwn 8:** Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrff a gynigir yn briodol?

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n credu bod yna gyrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?

**Cwestiwn 11:** Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwylio fod?

**Cwestiwn 12:** A ddylai corff goruchwylio gael gweithredu fel corff cynghori hefyd?

**Cwestiwn 13:** A ddylai corff goruchwylio gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?

**Cwestiwn 14:** Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?

**Cwestiwn 15:** Pa bwerau ddylai corff feddu arnyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?

**Cwestiwn 16:** Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwylio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?

**Cwestiwn 17:** Pam gamau gorfodi yn eich barn chi ddylai fod ar gael?

### **Gweithio ar draws y DU**

3.56 Gyda datblygu cynaliadwy yn gyd-destun trosfwaol sy'n ganolog i bob penderfyniad ac am fod y bylchau yn yr egwyddorion yng Nghymru'n wahanol iawn i'r bylchau yn rhannau eraill y DU, nid yw'r ymateb felly i gau'r bylchau yr un peth ym mhob gweinyddiaeth.

3.57 Ein man cychwyn ni oedd cau'r bylchau llywodraethu mewn ffordd a fyddai'n ateb gofynion penodol Cymru yn unol â'n fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethu ni.

3.58 Ond rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig bod pedair gweinyddiaeth y DU yn cydweithio â'i gilydd ar ôl gadael yr UE. Mae ein Papur Gwyn - *Brexit a Datganoli: Diogelu Dyfodol Cymru* yn cynnig bod llywodraethau'n cydweithio ar lefel ddyfnach a mwy cyson wrth arfer eu cymwyseddau ar wahân ond cysylltiedig.

5.59 Yn unol â'r 5 ffordd o weithio a'n hegwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae cydweithio a gweithio'n integredig yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n datblygu ei pholisïau, ac mae hynny'n cynnwys gweithio â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.

3.60 Rydym yn cydnabod lle ceir rhwymedigaethau sy'n gyffredin i'r DU gyfan neu lle y ceir cytundeb rhwng gwledydd y DU ar faterion amgylcheddol, gallai mecanwaith llywodraethu ar lefel y DU gyfan fod yn briodol ac rydym wastad wedi croesawu pob cyfle i gydweithio ar ddylunio mecanweithiau o'r fath.

## **Egwyddorion Amgylcheddol**

3.61 Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi dangos ei pharodrwydd i drafod ymateb posib ar lefel y DU wrth ddilyn egwyddorion os oes materion cyffredin rhwng gweinyddiaethau, yn enwedig mewn cysylltiad â deddfwriaeth sy'n gymwys i fwy nag un weinyddiaeth.

3.62 Fel ar hyn o bryd, pedair egwyddor amgylcheddol yr UE sydd wedi llywio datblygiad deddfwriaeth yr UE a fydd yn cael ei thro'i'n gyfraith ddomestig y DU gan Ddeddf yr UE (Ymadael)<sup>25</sup>. Rydym yn credu y gallai'r pedair egwyddor fod yn graidd o egwyddorion i'w defnyddio pan fydd angen penderfyniadau a deddfwriaeth ar y cyd rhwng gweinyddiaethau.

## **Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?**

### **Atebolrwydd a Goruchwyllo**

3.63 Yn unol â'n cynigion ar gyfer lefel ddyfnach a mwy cyson o gydweithio rhwng y pedair llywodraeth wrth iddyn nhw arfer eu cymwyseddau unigol ond cysylltiedig ar ôl gadael yr UE, bydd cyfleoedd i ddatrys problemau allai elwa o gael eu datrys ar lefel y DU gyfan, gan barchu hefyd y dirwedd ddeddfwriaethol yng Nghymru, yn arbennig rôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

3.64 O dan gytundebau'r UE, mae'r UE yn cael bod yn barti i nifer o gytundebau rhyngwladol<sup>26</sup>, a chafodd llawer o fesurau'r UE eu cyflwyno i roi rhwymedigaethau rhyngwladol yr UE ar waith neu rai'r aelod-wladwriaethau ar waith ar y cyd. Ar ôl

---

<sup>25</sup> EU (Withdrawal) Act 2018, adrannau 2 a 3

<sup>26</sup> Erthygl 3 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y meysydd hynny lle rhoddwyd cymhwysedd llwyr i'r UE neu Erthygl 4, TFEU, ar y cyd ag aelod-wladwriaethau mewn cytundeb cymysg lle rhennir cymhwysedd pwnc y cytundeb.

gadael, bydd y DU yn dal i fod yn barti i'r holl gytundebau amgylcheddol rhyngwladol y gwnaeth eu dilysu fel parti annibynnol.

3.65 Mae Deddf Llywodraeth Cymru fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017 yn neilltuo'r cymhwysedd Llywodraeth am faterion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol i Lywodraeth y DU. Mae hynny'n golygu mai Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am rwymedigaethau rhyngwladol ar ôl gadael yr UE. Fodd bynnag, cyfrifoldeb cymhwysedd datganoledig yw rhwymedigaethau rhyngwladol yn aml.

3.66 Bydd cyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol rhyngwladol yn sylfaenol i'n cysylltiadau yn y dyfodol â gwledydd eraill, yn enwedig ym meysydd cydgysylltu a masnach amgylcheddol. Bydd yn ofynnol o hyd o dan gytundebau a chonfensiynau rhyngwladol i adrodd yn rheolaidd ar weithredu cyfraith amgylcheddol ar draws y DU.

3.67 Bydd cydweithio'n briodol hefyd pan welir bod meysydd wedi'u cadw a meysydd datganoledig yn gorgyffwrdd gan fod buddiant dilys os yw maes polisi sydd wedi'i gadw yn cael effaith ar faes polisi datganoledig.

3.68 Mae mecanweithiau llywodraethu'r UE wedi cynnig strwythur mwy trylwyr ar gyfer gorfodi rhwymedigaethau (fel y'u dehonglir yng nghyfraith yr UE) nag a geir ar y lefel ryngwladol.

3.69 I gael y gweinyddiaethau i gydweithio â'i gilydd mewn meysydd cyffredin a meysydd y gellir eu huno, mae cyfle i ddylunio mecanweithiau llywodraethu. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r fframweithiau unigryw a phenodol ym mhob gwlad, maen nhw hefyd yn ymdrin â'r rhyngwyneb rhyngddynt a'r amgylchedd a'u darparu'n gyfan ar draws y DU.

3.70 Rydym yn gofyn ichi am eich barn am strwythur posibl mecanweithiau llywodraethu sy'n parhau'r fframweithiau datganoli (gan gynnwys rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac sy'n darparu strwythur ar gyfer cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

**Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posibl yn eich barn chi sydd eu hangen i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?**

**Cwestiynau 18 i 19 o 19**

**Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?**

**Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posibl yn eich barn chi sydd eu hangen i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?**

## Atodiad 1: Gwestiynau

# Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE

**Ffurflen Ymateb i'r  
Ymgynghoriad** Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n  
berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 9 Mehefin 2019.

**Ysgrifennwch aton ni:**

Llywodraethu'r Amgylchedd,  
Uned Ymadael â'r UE a Strategaeth,  
Llywodraeth Cymru,  
Parc Cathays,  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**[Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru](mailto:Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru)**

## **Egwyddorion Amgylcheddol**

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?

Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?

Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

## **Atebolrwydd**

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?

Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai gyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?



Cwestiwn 7: A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?

Cwestiwn 8: Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrrff a gynigir yn briodol?

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu bod yna gyrrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?

Cwestiwn 11: Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwylio fod?

Cwestiwn 12: A ddylai corff goruchwylio gael gweithredu fel corff cynghori hefyd?

Cwestiwn 13: A ddylai corff goruchwylio gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?

Cwestiwn 14: Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?

Cwestiwn 15: Pa bwerau ddylai corff feddu amyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?

Cwestiwn 16: Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwylio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?

Cwestiwn 17: Pam gamau gorfodi yn eich barn chi ddylai fod ar gael?

### **Eraill**

Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?

Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posib yn eich barn chi sydd eu hangen i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?

## Atodiad 2: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddyletswydd newydd ar 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys pennu a chyhoeddi amcanion llesiant er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â chymryd camau rhesymol wrth arfer swyddogaethau er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – y Cyrff Cyhoeddus a Restrir

- Gweinidogion Cymru;
- Awdurdodau lleol;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru;
- Awdurdodau Tân ac Achub Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Dyma'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy sydd yn y Ddeddf:

*“...broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r **egwyddor datblygu cynaliadwy**...gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant...”*

Mae'r Ddeddf yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus newid eu diwylliant a sut y maent yn gweithio er mwyn iddynt fedru mynd ati i sicrhau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r nodau llesiant yn cynnig gweledigaeth gyffredin ar gyfer llesiant yng Nghymru yn y dyfodol – hynny yw, canlyniadau cyffredin y mae'r cyrff cyhoeddus a'u partneriaid yn gweithio tuag at eu cyflawni. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.


Un o nodau'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n nodi sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu, yw ceisio darparu ar gyfer gwell penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr hirdymor. Y nodau eraill yw helpu i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf neu rhag gwaethygu; cydweithredu a chydweithio mewn ffordd integredig; ac yn ystyried a chynnwys pobl o bob oed. Dyma'r 5 ffordd o weithio:



### 5 Ffordd o Weithio

1. Hirdymor: Pwysigrwydd cadw'r ddysg yn wastad rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor.
2. Atal: Sut y gall gweithredu i osgoi problemau neu'u hatal rhag gwaethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'u hamcanion.
3. Integreiddio: Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
4. Cydweithio: Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni'i amcanion llesiant.
5. Cynnwys: Pwysigrwydd cynnwys y rheini sydd â budd mewn gweld y nodau llesiant yn cael eu gwireddu a gofalu bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus gymryd camau i gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf:



### Y Nodau Llesiant

**Cymru lewyrchus** - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur.

**Cymru gydnerth** - Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.

**Cymru iachach** - Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal** - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

**Cymru o gymunedau cydlynus** - Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang** - Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud hynny gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Gwnaeth y Ddeddf hefyd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n arfer elfen o reolaeth dros awdurdodau lleol wrth iddynt fynd ati i geisio cyflawni datblygu cynaliadwy; mae gofyn hefyd i'r Byrddau hyn anfon copi o'u hadroddiad cynnydd blynyddol at y Comisiynydd.

Mae'r Ddeddf yn darparu hefyd y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau o'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weld a ydynt yn cydymffurfio ag agweddau perthnasol ar y Ddeddf.

## Atodiad 3: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd set o egwyddorion allweddol sy'n ymwneud â rheoli adnoddau Naturiol Cymru yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yr enw a roddir yn y Ddeddf ar yr egwyddorion hynny yw egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol.

Mae'r egwyddorion hyn yn defnyddio'r dull datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ei gwneud yn ofynnol i adnoddau naturiol gael eu rheoli mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, ac sydd hefyd yn cyfrannu at y nodau llesiant.

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ymdrin â phum maes sydd, o fwriad, yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – cydweithio a chydweithredu, cynnwys y cyhoedd, gweithredu mewn ffordd ataliol, ac edrych ar yr hirdymor – ac mae hefyd, ar yr un pryd, yn defnyddio pedwar ffordd arall o weithio sydd i'w gweld mewn cytundebau rhyngwladol allweddol. Diben gwneud hynny yw sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd integredig i reoli'n hadnoddau naturiol, gan wneud hynny o fewn y fframwaith ar gyfer cyflawni'r Nodau Llesiant.

Hanfod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw'r gydnabyddiaeth na fyddwn yn gallu sicrhau'r ffyniant a'r llesiant hirdymor a ddisgrifir yn y Nodau hynny os na fydd ein hecosystemau'n cael eu cynnal a'u gwella.

Mae'r dull gweithredu'n un integredig oherwydd ei fod yn:

- Gymwys ar draws meysydd polisi a gweithgareddau o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac yn cydnabod bod gweithgareddau'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar statws ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau;
- Cydnabod y cysylltiadau rhwng meysydd polisi ac yn cydnabod hefyd na ellir gweithio mewn seilos wrth ymateb i faterion sy'n codi.

### Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Egwyddor	Disgrifiad
<b>Rheoli mewn ffordd Ymaddasol</b>	cynllunio, monitro, adolygu a newid ffyrdd o weithio wrth i well dealltwriaeth gael ei meithrin drwy well tystiolaeth a phrofiadau.
<b>Graddfa</b>	bydd angen gwneud penderfyniadau a gweithredu ar y lefel briodol, boed yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol er mwyn mynd i'r afael â materion ar y raddfa ecolegol briodol.
<b>Cydweithio</b>	mae gan bawb fudd yn ein hadnoddau naturiol ac mae gan bawb ran mewn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, drwy gymryd rhan mewn prosiectau, darparu tystiolaeth, neu gydweithio a chydweithredu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.



<b>Cysylltu â'r cyhoedd</b>	gofalu bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud, ym mhob cam o'r broses benderfynu, am sut y dylai'n hadnoddau naturiol gael eu rheoli.
<b>Tystiolaeth</b>	mae angen sylfaen dystiolaeth well ac ehangach er mwyn inni feithrin gwell dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol, o sut y maent yn gweithio a'r manteision y maent yn eu darparu. Bydd tystiolaeth well yn ein helpu ni i gyd i ddeall yn well yr hyn y gallwn ei wneud i reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy. Bydd angen ystod eang o dystiolaeth; nid tystiolaeth amgylcheddol yn unig ond tystiolaeth ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd hefyd gan arbenigwyr, rhanddeiliaid a chymunedau lleol.
<b>Deall yr holl fanteision yr ydym yn eu cael gan ein hadnoddau naturiol.</b>	mae angen inni i gyd ddeall yn well werth ein hadnoddau naturiol a sut y maent yn cynnal ei gilydd er mwyn inni a chenedlaethau'r dyfodol fedru parhau i elwa ar y manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, ond gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn lleihau'r effaith yr ydym yn ei chael ar yr amgylchedd o'n cwmpas.
<b>Effeithiau hirdymor</b>	mae angen ystyried effeithiau ein penderfyniadau a'n gweithredoedd nid yn unig yn y tymor byr ond hefyd yn y tymor hir
<b>Atal</b>	cymryd camau i atal difrod arwyddocaol i'n hecosystemau
<b>Cydnherthedd</b>	er mwyn iddynt fedru ymdopi â'r gofynion a'r pwysau cynyddol sydd arnynt, mae angen i'n hecosystemau fod yn iach. Mae hynny'n cynnwys gofalu bod ein penderfyniadau'n ystyried cydnherthedd ein hecosystemau a'u gallu i ddarparu eu manteision dros y tymor hir. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid a'r gofynion a fydd arnynt yn y dyfodol.
<b>Yn ogystal â'r egwyddorion uchod ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, mae gennym hefyd egwyddorion eraill sy'n cyfateb i'r 5 Ffordd o Weithio</b>	
<b>Ystyried y raddfa briodol</b>	sy'n golygu y dylid gwneud gwaith i reoli'r amgylchedd ar y graddfeydd gofodol priodol er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol ar raddfa sy'n gwneud y synnwyr mwyaf yn ecolegol.
<b>Effeithiau dros amser</b>	(neu raddfa amser), sef yr angen i ystyried canlyniadau gweithredoedd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, sydd, ar y cyd ag ystyried manteision (gan gynnwys gwerth cynhenid) adnoddau naturiol ac ecosystemau, yn golygu ystyried eu <b>cydnherthedd</b> .
<b>Rhagofalus</b>	er nad yw Deddf yr Amgylchedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr egwyddor ragofalus, mae'r elfennau allweddol sy'n rhan o ddull rhagofalus o weithredu yn cael eu hadlewyrchu yn yr egwyddorion eraill, gan ddilyn y canllawiau a ddatblygwyd gan Gomisiwn yr UE ar roi'r egwyddor ar waith gam wrth gam.

## Dyletswyddau Statudol

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac mae'n ofynnol iddo fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso'r egwyddorion sy'n sail i hynny wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'n rhaid i CNC fynd ati bob blwyddyn i gyflwyno adroddiad am sut y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth baratoi, cyhoeddi a gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol<sup>27</sup>, sy'n cynnwys polisiau ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

## Cymhwyso

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac felly hefyd y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r holl bolisiau sydd ynddo, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir er mwyn rhoi'r polisiau ar waith.

Wrth nodi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, mae'r Ddeddf yn nodi'r camau allweddol sydd angen eu cymryd er mwyn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy ac yn eu cysylltu â'r ffordd y cymhwysir datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd ill dwy yn defnyddio egwyddorion rhyngwladol ac arferion gorau wrth nodi'r 5 ffordd o weithio ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn yr un modd ag yn y cyd-destun Ewropeaidd, mae'n bwysig nodi nad dim ond yn y maes amgylcheddol y mae'r manteision. Maent yn berthnasol i'r holl feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru, oherwydd eu bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau ffyniant ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac oherwydd eu bod hefyd yn cynnwys manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Gan weithredu mewn ffordd debyg i'r un a fabwysiadwyd gan yr UE, mae'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Deddfau hyn yn rhan o gyd-destun cyffredinol datblygu cynaliadwy, a bwriedir hefyd eu cysylltu'n glir â rhwymedigaethau rhyngwladol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

## **Fframwaith Itraidd**

Rydym yn cydnabod mai'n hadnoddau naturiol yw rhai o'r asedau pwysicaf sydd gennym. Mae fframwaith iteraidd ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) a fydd yn fodd i sicrhau bod rheoli'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ystyriaeth ganolog wrth wneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith hwnnw'n cynnwys yr

---


<sup>27</sup> <https://gov.wales/docs/desh/publications/170821-natural-resources-policy-cy.PDF>

Adroddiad am Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a datganiadau ardal.

**Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** – rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi adroddiad sy'n rhoi asesiad o'n hadnoddau naturiol ac sydd hefyd yn pwysu a mesur a ydym yn llywddo i'w rheoli mewn ffordd gynaliadwy ai peidio. Caiff y polisi ei baratoi bob 5 mlynedd a dylai'r Adroddiad nesaf gael ei gyhoeddi ddiwedd 2020.

**Y Polisi Adnoddau Naturiol (PAN)** – rhaid i Lywodraeth Cymru baratoi polisi sy'n nodi'n polisiâu cyffredinol a phenodol ar gyfer rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rhaid i'r Polisi roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac adolygu'r polisiâu yng ngoleuni unrhyw adroddiad newydd a gyhoeddir gan CNC.

**Datganiadau ardal** – mae CNC yn gweithredu ar sail ardal wrth roi'r polisiâu yn y PAN ar waith. Mae'n cynnwys sylfaen dystiolaeth fanylach, sy'n cael ei defnyddio wrth baratoi fersiwn nesaf yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Mae datganiadau ardal yn helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodir yn y PAN.



## Atodiad 4: Swyddogaethau Comisiwn yr UE

Swyddogaeth	Lefel Cymru
<b>Datblygu strategaeth hirdymor</b>	Yng Nghymru – Polisi Adnoddau Naturiol – a nodir mewn Deddfwriaeth Sylfaenol – cael ei gysylltu â thystiolaeth a gweithredu. Cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – diben y polisi yw sicrhau bod adnoddau naturiol <b>yn</b> cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy a, thrwy oblygiad fod y Nodau Llesiant yn cael eu cyflawni. Yn cael ei osod o fewn fframwaith rheoli ymaddasol
<b>Llunio cynigion polisi</b>	Fe'u datblygir ar draws LIC yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chan ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio. O ran adnoddau naturiol – polisiâu cyffredinol a phenodol yn y PAN yn cael eu datblygu er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chan ddilyn yr egwyddorion hynny.
<b>Arfarnu cynigion polisi</b>	Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bwyllgorau sy'n asesu polisiâu
<b>Datblygu Deddfwriaeth</b>	Pan fo'n gysylltiedig â gweithredu polisi adnoddau naturiol – Gweinidogion Cymru sy'n cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn gyffredinol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r 5 ffordd o weithio.
<b>Llywio'r gweithredu</b>	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'n rhoi cyngor i gyrrff cyhoeddus, gan roi cymorth iddynt gyflawni eu hamcanion llesiant a'u hannog i ddefnyddio'r arferion gorau;</li> <li>- Mae'n rhoi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar baratoi eu Cynllun Llesiant Lleol</li> </ul> <p>Mewn perthynas â'r PAN, rhaid i Weinidogion Cymru annog eraill i gymryd pob cam rhesymol i roi'r polisi hwnnw ar waith.</p>
<b>Rhannu a throsglwyddo arbenigedd ac arferion gorau</b>	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'n gwneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys y nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae cyrrff cyhoeddus yn ei chymhwyso.</li> </ul>
<b>Sganio'r Gorwel</b>	Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

<p><b>Monitro ac asesu</b></p>	<p>CNC – dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cy) i gyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd, a'r adroddiad hwnnw'n cael ei ystyried wrth adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol.</p> <p>Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant eu hardal (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Rhaid i holl Gyrff Cyhoeddus Cymru fynd ati bob blwyddyn i gyflwyno adroddiad am eu hamcanion llesiant (sy'n cyfrannu at y nodau llesiant).</p> <p>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Rhaid gofynion mewn deddfwriaeth ddomestig i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad – e.e. Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru – gofyniad i gyflwyno adroddiad am dargedau etc</p>
<p><b>Craffu'n rhagweithiol</b></p>	<p>Y Cynulliad Cenedlaethol a'i bwyllgorau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Yr Archwilydd Cyffredinol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cymdeithas sifil Mae Pwyllgorau'r Cynulliad a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau.</p> <p><u>Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol</u> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: – mae'n paratoi ac yn cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd, sy'n rhoi asesiad o'r gwelliannau y mae cyrff cyhoeddus wedi'u gwneud, ac y dylent eu gwneud, mewn perthynas â phennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. – mae'n cynnal adolygiadau i weld sut y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, ac mae'n gwneud argymhellion ar sail y canfyddiadau – rhaid i'r corff gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn;</p> <p>Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau ar gyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bennu amcanion llesiant, a</li> <li>• chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.</li> </ul> <p>Ond rhaid iddo gyflwyno adroddiad o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol o bum mlynedd a gosod adroddiadau gerbron y Cynulliad.</p>

<p><b>Ymchwilio</b></p>	<p>Mae gan y Cynulliad a chyrrff fel Swyddfa Archwilio Cymru bwerau i gynnal ymchwiliadau i berfformiad.</p> <p>Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus bwerau i ymchwilio ac i ofyn am dystiolaeth.</p> <p>Caiff y Cynulliad gynnal ymchwiliadau o'i ben a'i bastwn ei hun</p> <p>Mae gan lawer o gyrff y pwerau a'r gallu i gynnal astudiaethau ac ymchwiliadau fel rhan o'r swyddogaethau ehangach sydd ganddynt i gyflwyno a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad y gellir ei defnyddio er mwyn dal y sector cyhoeddus i gyfrif.</p> <p><u>Fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u></p> <p>Caiff Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynnal adolygiadau i weld sut y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, ac i wneud argymhellion ar sail y canfyddiadau.</p> <p>Caiff wneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys y nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae cyrff cyhoeddus yn ei chymhwyso.</p>
<p><b>Gweithdrefnau cwyno</b></p>	<p>Bydd yn parhau'n ofynnol i gyrff cyhoeddus fod wedi sefydlu gweithdrefnau cwyno a fydd hefyd yn cynnwys ymrwymadau i ymchwilio'n llawn i gwynion am eu perfformiad ac i ymateb i'r cwynion hynny.</p> <p>Gall dinasyddion hefyd barhau i ddeisebu eu cynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys y Cynulliad.</p> <p>Gall unigolion a sefydliadau gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am yr hyn y mae awdurdodau amgylcheddol yn ei gyflawni.</p> <p>Gall unigolion godi materion gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol</p>
<p><b>Mecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn ceisio dod o hyd i atebion i bryderon am y ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu, drwy gysylltu â'r Llywodraeth</b></p>	<p>Fel arfer, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ceisio dod o hyd i ateb drwy drafod, er y bydd yn argymhell newid gweithdrefnau ac arferion.</p> <p><u>Fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u></p> <p>Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bwerau i weithio gyda chyrrff cyhoeddus i'w helpu i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arnynt o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gall y Comisiynydd hefyd roi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar baratoi eu Cynllun Llesiant Lleol.</p> <p>Nid yw'r cyngor a'r cymorth hwn yn cael ei roi o fewn trefn orfodi ffurfiol.</p>

<p><b>Pwerau i gyfeirio corff cyhoeddus i'r llys am fethiant honedig i weithredu cyfraith amgylcheddol er mwyn ceisio cael rhwymedi</b></p>	<p>Mae nifer o achosion y gall unigolion eu dwyn o dan y gyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat pan nad yw cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r gyfraith – byddai hyn y gymwys i gyfraith yr UE sy'n cael ei dargeadw mewn deddfwriaeth ddomestig.</p> <p>Y brif ffordd o wneud hyn ar hyn o bryd yw drwy adolygiad barnwrol, sy'n seiliedig ar herio cyfreithlondeb a rhesymoldeb yr hyn y mae corff cyhoeddus wedi'i wneud.</p>
<p><b>Pwerau i orchymyn bod mesurau interim yn cael eu cymryd cyn i'r dyfarniad gael ei wneud er mwyn osgoi difrod na ellir ei ddadwneud</b></p>	<p>Mae gan lysoedd a chyrrff cyhoeddus ystod o bwerau interim i atal gweithgareddau sy'n torri cyfreithiau amgylcheddol, ac fel arfer, gellir apelio yn erbyn eu dyfarniadau.</p>
<p><b>Pwerau i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth wneud yr hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio ac i osod sancsiynau os na fydd yn gweithredu (gan gynnwys dirwyon)</b></p>	<p>Caiff llysoedd ddileu penderfyniadau o dan amgylchiadau penodol a rhoi iawndal ariannol os gwelir bod buddiant preifat ar ei golled.</p> <p>Atebolrwydd gwleidyddol ac atebolrwydd o ran polisi drwy'r Cynulliad neu atebolrwydd cyfreithiol drwy'r llysoedd fyddai'r prif ffyrdd o hyd o osod sancsiynau ar y llywodraeth.</p> <p>Yng Nghymru, nid oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol unrhyw bwerau gorfodi ond gall wneud argymhellion sy'n rhai perswadiol ond nad ydynt yn rhwymo mewn cyfraith.</p>



## Atodiad 5: Y mecanweithiau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru er mwyn sicrhau atebolrwydd amgylcheddol

Corff	Disgrifiad
<b>Cynulliad Cenedlaethol Cymru</b>	<p>Cyfrifoldeb cyffredinol dros ddal Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill fel CNC i gyfrif.</p> <p>O dan amgylchiadau penodol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiadau penodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (e.e. o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)) ac adrodd ar amryfal ofynion o dan y fframwaith cyfreithiol presennol.</p>
<b>Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig</b>	<p>Asesiadau ac ymchwiliadau gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
<b>Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol</b>	<p>Mae'n ystyried materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol neu faterion y llywodraeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw. Mae hefyd yn ystyried ansawdd deddfwriaeth.</p>
<b>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol</b>	<p>Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir yn y Ddeddf.</p> <p><u>Penodi:</u> Mae Gweinidogion Cymru yn penodi unigolyn yn Gomisiynydd annibynnol ar ôl ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p><u>Dyletswyddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus, gan roi cymorth iddynt gyflawni eu hamcanion llesiant a'u hannog i ddefnyddio'r arferion gorau;</li> <li>• Rhoi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar baratoi eu Cynllun Llesiant Lleol;</li> <li>• Gwneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys y nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae cyrrff cyhoeddus yn ei chymhwyso;</li> <li>• Cynnal adolygiadau i sut y mae cyrrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, a gwneud argymhellion ar sail y canfyddiadau – rhaid i'r corff gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn;</li> <li>• Gwneud argymhellion i gorff cyhoeddus am y camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd i bennu ac i gyflawni amcanion llesiant;</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd, sy'n rhoi asesiad o'r gwelliannau y mae cyrff cyhoeddus wedi'u gwneud, ac y dylent eu gwneud, mewn perthynas â phennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</li> </ul> <p><u>Gorfodi</u> Nid oes ganddo bwerau gorfodi ond mae'n cynnig cyngor a chymorth.</p> <p><u>Cyllido:</u> Lywodraeth Cymru Mae'r Comisiynydd yn cael cymorth gan Banel Cyngori. Mae'r Panel yn cynnwys Comisiynwyr eraill Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru, cynrychiolydd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, TUC Cymru, a gellir hefyd ychwanegu eraill.</p>
<p><b>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</b></p>	<p><u>Penodi:</u> Gan y Frenhines ar ôl i rywun gael ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p><u>Dyletswyddau</u> Gall unigolion a sefydliadau gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am yr hyn y mae awdurdodau amgylcheddol yn ei gyflawni Nid yw gwaith yr Ombwdsmon yn hoelio sylw penodol ar faterion amgylcheddol; mae ganddo bwerau i ymchwilio ac i ofyn am dystiolaeth</p> <p><u>Gorfodi:</u> Gall yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad ffurfiol am achosion o dorri'r cod ymddygiad. Panel Dyfarnu Cymru. Mater i'r Panel fydd penderfynu a yw'r cod ymddygiad wedi'i dorri ac os ydyw, pa gosb i'r rhoi i'r aelod o dan sylw.</p> <p><u>Cyllido:</u> Cronfa Gyfunol Cymru – craffu y gyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
<p><b>Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru</b></p>	<p><u>Penodi'r Archwilydd Cyffredinol</u> Fe'i penodir gan y Frenhines ar ôl i rywun gael ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p><u>Dyletswyddau</u> Y corff sy'n gyfrifol am archwilio Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n cyhoeddi adroddiadau, ac mae rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff ei chyfrifon eu harchwilio gan gwmni annibynnol a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>

	<p><u>Yr Archwilydd Cyffredinol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u></p> <p>Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau ar gyrrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bennu amcanion llesiant, a</li> <li>• chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.</li> </ul> <p>Ond rhaid iddo gyflwyno adroddiad o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol pum mlynedd a gosod adroddiadau gerbron y Cynulliad.</p> <p><u>Cyllido:</u></p> <p>Cronfa Gyfunol Cymru – craffu yn gyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
<p><b>Y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</b></p>	<p>Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 – i hyrwyddo ac i hybu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar arferion da yn hynny o beth, a hefyd i fonitro ac adrodd ar ba mor effeithiol yw'r gyfraith. Mae'n gorff arbenigol ac yn un o'r rheini sy'n gorfodi Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae ganddo bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau cyffredinol, i wneud argymhellion ac i wella'r gyfraith. Mae ganddo bwerau cyfreithiol i ymchwilio i achosion o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith ac i bennu rhwymedi a chaiff gynnal ymchwiliadau ffurfiol ac asesiadau a chytuno ar gynllun gweithredu gyda chorff y mae'n ymchwilio iddo neu roi hysbysiadau sy'n rhwymo mewn cyfraith. Os yw corff yn parhau i beidio â chydymffurfio, caiff y Comisiynydd gyflwyno cais i'r llysoedd am orchymyn i'w gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio. Mae ganddo hefyd bwerau i ddwyn achosion cyfreithiol ac i ymyrryd ynddynt ac mae ganddo bwerau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol i ddwyn achosion adolygiad barnwrol os nad yw awdurdod cyhoeddus yn gweithredu yn unol â hawliau dynol. Mewn gwirionedd, mae'r corff yn tueddu i ddefnyddio opsiynau cyfraith 'feddal'.</p> <p>Fe'i penodir gan Weinidogion y Llywodraeth. Fe'i hareinnir gan y llywodraeth. Yr un llywodraeth sy'n awdurdodi penderfyniadau ar wariant – mae'n bosibl y bydd y corff yn gorfodi.</p>
<p><b>Y Comisiynydd Gwybodaeth</b></p>	<p>Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, ac fe'i penodir gan y Goron ar ôl i'r Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon roi ei gymeradwyaeth. Mae'n atebol i Senedd y DU. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn hyrwyddo arferion da (gan gynnwys wneud hynny drwy baratoi canllawiau), mae'n casglu gwybodaeth debyg am faterion perthnasol, yn gosod adroddiadau blynyddol gerbron Senedd y DU, ac yn monitro sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Mae'r Swyddfa hefyd yn ymchwilio i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys edrych ar bryderon a godir gan y cyhoedd. Caiff gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth, asesu a gorfodi sy'n rhwymo mewn cyfraith ac erlyn am droseddau o dan y Ddeddf. O dan adran 47 o'r Ddeddf, mae methu â chydymffurfio</p>

	<p>a hysbysiad gorfodi neu hysbysiad gwybodaeth yn drosedd. Caiff y Swyddfa hefyd roi cosbau ariannol am achosion difrifol o weithredu'n groes i'r Deddf Diogelu Data i bob reolydd data yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwrfoddol, gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth.</p>
<p><b>Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd</b></p>	<p>Corff statudol, annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.</p> <p><u>Penodi</u> Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig</p> <p><u>Dyletswyddau</u> Mae'n cynghori Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar dargedau allyriadau ac yn cyflwyno adroddiadau i Senedd y DU am hynt y gwaith o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Rhaid iddo osod gerbron Senedd y DU bob blwyddyn adroddiad sy'n rhoi ei farn ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r cyllidebau carbon a tharged 2050. Mae'n ofynnol iddo nodi yn yr adroddiad sut y cyflawnwyd neu na chyflawnwyd y gyllideb a'r camau a gymerwyd i leihau allyriadau carbon net y DU.</p> <p><u>Cyllido</u> Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Is-bwyllgor Ymaddasu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r gweinyddiaethau datganoledig.</p> <p><u>Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru</u> Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswyddau ar y corff o ran targedau a chyllidebau carbon Cymru a gall Gweinidogion Cymru ofyn i'r corff am gyngor ar ddatblygu targedau a chyllidebau interim. O dan y Ddeddf, mae dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i geisio cyngor y corff cyn gweithredu a rhaid iddynt roi rhesymau i'r Cynulliad os ydynt am weithredu'n groes i'r cyngor hwnnw. Wrth i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd roi cyngor i Weinidogion Cymru ar wneud rheoliadau i newid targed 2050, neu ar bennu neu newid targed interim neu gyllideb, rhaid iddo roi sylw i faterion penodol, gan gynnwys: a) Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol; b) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol; c) Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>
<p><b>Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur</b></p>	<p>Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cael ei arwain gan y Cyd-bwyllgor – daw'r aelodau o'r cyrff cadwraeth natur ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac aelodau annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae gan y Cyd-bwyllgor Gadeirydd annibynnol. Rôl y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yw darparu tystiolaeth, gwybodaeth a chyngor.</p>

<b>Y Sefydliad Rheoli Morol</b>	<u>Penodi</u> Llywodraeth y DU Sefydlu system cynllunio morol a system trwyddedu morol, rheoli capasiti fflyd bysgota'r DU a chwotâu pysgodfeydd y DU, gweithio gyda sefydliadau cadwraeth natur a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i greu rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig. <u>Cyllido</u> Llywodraeth y DU
<b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b>	<u>Penodi</u> Llywodraeth Cymru Mae'n ofynnol i CNC gyflwyno adroddiad blynyddol am ei weithgareddau. <u>Cyllido</u> Llywodraeth Cymru

## Atodiad 6: Dadansoddiad o'r Bylchau

Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mecanweithau Presennol	Y Bwch
<b>Monitro, mesur ac adrodd – adrodd ar ddata amgylcheddol</b>	<p>Nid yw'n ofynnol bellach i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiadau gweithredu ar gyfer mesurau amgylcheddol yr UE i'r Comisiwn.</p> <p>Gofynion i'r data gael eu cyhoeddi.</p>	<p>Bydd yn parhau'n ofynnol i'r DU gyflwyno adroddiadau o dan ystod o gytundebau a chonfensiynau rhyngwladol. Os yw hynny'n cael ei wneud drwy'r UE ar hyn o bryd, bydd angen i'r DU ei wneud ar ei phen ei hun.</p> <p>Dylai'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i fonitro ac i adrodd barhau.</p> <p><u>Yng Nghymru</u></p> <p>CNC – dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cy) i gyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd, ac i ystyried yr adroddiad hwnnw wrth adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol</p>	<p>Systemau'r UE a ddatblygwyd er mwyn hwyluso gwaith adrodd. Darbodion maint o ran yr wybodaeth a gesglir drwy amryfal sefydliadau'r UE, e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd</p> <p>Y gallu i fanteisio ar arbenigedd, systemau a data a gywbodaeth ehangach.</p> <p>Yn aml, mae mecanweithiau presennol yr UE yn feichus ac yn aneffeithlon, ac nid ydynt yn cydfynd â'i gilydd ychwaith (e.e. y gofynion o ran amseru)</p>
<b>Monitro, mesur ac adrodd: Adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol</b>	<p>Ni fydd yn ofynnol bellach i'r DU gyflwyno adroddiadau i Gomisiwn yr UE ar weithredu a chymhwysio cyfreithiau amgylcheddol ac ar ba mor effeithiol y gwneir hynny.</p> <p>Mae'n ofynnol o dan amryfal ddarnau o ddeddfwriaeth yr UE i gyflwyno adroddiadau am y camau ymarferol a gymerwyd a'r canlyniadau a gafwyd wrth roi mesurau amgylcheddol penodol ar waith.</p>	<p>Mae gywbodaeth yn cael ei chasglu a'i chydgysylltu ar lefel y DU gan gyrff cyhoeddus eraill.</p> <p>Mae Senedd y DU/y Cynulliad a'u pwyllgorau yn asesu deddfwriaeth. Rhai gofynion mewn deddfwriaeth ddomestig i gyflwyno adroddiadau i Senedd y DU/y Cynulliad - e.e. Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru – gofyniad i gyflwyno adroddiadau am dargedau etc.</p>	<p>Colli'r pwysau a roddir arnom gan yr UE i wella ansawdd yr adroddiadau ac i'w cyflwyno yn unol â'r amserlen.</p> <p>Digon o gapasiti ac arbenigedd i graffu ar ba mor effeithiol yw deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes o fewn fframwaith presennol y DU/Cymru.</p>

Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mekanweithau Presennol	Y Bwlch
	Mae gofyn cyflwyno'r adroddiadau o fewn amserlenni penodol ac mae'r Comisiwn yn gweithredu os oes unrhyw wendidau.		
<p><b>Craffu ar adroddiadau, paratoi adroddiadau ac asesiadau annibynnol, ac edrych i weld a yw cyrff yn cydymffurfio â gofynion amgylcheddol ac yn gwneud cynnydd yn hynny o beth</b></p>	Ni fydd trefniadau'r UE ar gyfer craffu ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau eu bod yn trosi cyfraith yr UE ac yn ei gweithredu'n briodol, yn berthnasol bellach i'r DU.	<p>Mae'r mecanweithiau craffu presennol yn cynnwys: Y Cynulliad Cenedlaethol a'i bwyllgorau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Yr Archwilydd Cyffredinol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cymdeithas sifil</p> <p>Mae Pwyllgorau'r Cynulliad a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau.</p> <p><u>Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol</u> Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn paratoi ac yn cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd, sy'n rhoi asesiad o'r gwelliannau y mae cyrff cyhoeddus wedi'u gwneud, ac y dylent eu gwneud, mewn perthynas â phennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p> <p>Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau ar gyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y mae corff</p>	Mae mecanweithiau'r UE yn cynnig dull allanol cryf o gadw golwg ar berfformiad Aelod-wladwriaeth wrth gyflawni'r rhwymedigaethau amgylcheddol sydd arno. Diffyg arbenigedd a gwybodaeth am faterion amgylcheddol gan y cyrff sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mekanweithau Presennol	Y Bwlch
		<p>wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bennu amcanion llesiant, a</li> <li>• chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.</li> </ul> <p>Ond rhaid iddo gyflwyno adroddiad o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol o bum mlynedd a gosod adroddiadau gerbron y Cynulliad.</p>	
<p><b>Cychwyn ymchwiliadau, astudiaethau ac adroddiadau trawsbynciol</b></p>	<p>Ni fydd Comisiwn yr UE bellach yn cynnal ymchwiliadau i sicrhau bod y DU yn gweithredu cyfraith yr UE yn briodol.</p> <p>Ni fydd y DU bellach yn cael ei chynnwys yn y broses systematig a ddarperir gan sefydliadau'r UE.</p> <p>Mae sefydliadau'r UE, fel Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, yn darparu tystiolaeth a data ar gyfer Comisiwn yr UE.</p>	<p>Mae gan y Cynulliad a chyrrff fel Swyddfa Archwilio Cymru bwerau i gynnal ymchwiliadau i berfformiad. Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus bwerau i ymchwilio ac i ofyn am dystiolaeth. Caiff y Cynulliad gynnal ymchwiliadau o'i ben a'i bastwn ei hun.</p> <p>Mae gan lawer o gyrff y pwerau a'r gallu i gynnal astudiaethau ac ymchwiliadau fel rhan o'u swyddogaethau ehangach i gyflwyno a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad y gellir ei defnyddio er mwyn dal y sector cyhoeddus i gyfrif.</p> <p><u>Fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u></p> <p>Caiff Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynnal adolygiadau i weld sut y mae cyrrff cyhoeddus yn mynd ati i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, a chaiff wneud argymhellion ar sail y canfyddiadau.</p>	<p>Nid yw'r broses ddomestig yn un mor systematig â'r un a ddarperir gan yr UE.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes dyletswydd benodol ar y Llywodraeth i ymateb i adroddiadau neu i weithredu.</p> <p>Yn gyffredinol, nid oes gan gyrff domestig yr arbenigedd na'r wybodaeth berthnasol a byddai angen iddynt droi at arbenigwyr eraill.</p> <p>Rhaid i Gyrff sy'n dod o dan Fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, gymryd pob cam rhesymol i ddilyn argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>



Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mecanweithau Presennol	Y Bwlch
		Caiff wneud gwaith ymchwil sy'n cynnwys y nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae cyrff cyhoeddus yn ei chymhwyso.	
<b>Mecanweithiau sy'n caniatáu i unigolion a sefydliadau gyflwyno cwynion am y ffordd y mae cyfraith amgylcheddol (anhroseddol) yn cael ei chymhwyso.</b>	Ni fydd dinasyddion y DU yn gallu defnyddio'r system gwynion ar-lein a ddarperir gan yr UE ar gyfer dinasyddion.	Bydd yn parhau'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus sefydlu gweithdrefnau cwyno a fydd hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i ymchwilio'n llawn i gwynion am eu perfformiad ac i ymateb i'r cwynion hynny. Bydd dinasyddion yn parhau i fedru deisebu aelodau etholedig, gan gynnwys y Cynulliad. Gall unigolion a sefydliadau barhau i gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am yr hyn a gyflawnir gan awdurdodau amgylcheddol. Gall unigolion godi materion gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Mae'n bosibl y bydd angen cyngor arbenigol ac annibynnol ar aelodau etholedig er mwyn dod i gasgliadau am faterion amgylcheddol ac er mwyn mynd ar drywydd cwynion gyda'r Llywodraeth. Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hoelio sylw penodol ar faterion amgylcheddol ac mae'n bosibl nad oes ganddo'r arbenigedd technegol i fedru ymdrin â materion amgylcheddol cymhleth. Mae'r mecanweithiau presennol (e.e. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) yn tueddu i ganolbwyntio ar asesu er mwyn gweld a ddilynwyd y prosesau priodol a chyfreithiol yn hytrach na chanolbwyntio ar deilyngdod unrhyw gŵyn.
<b>Mecanweithiau ffurfiol ac</b>	Ni fydd y DU yn dod bellach o dan y gweithdrefnau gorfodi	Fel arfer, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn	



Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mecanweithau Presennol	Y Bwlch
<p><b>anffurfiol o geisio dod o hyd i atebion i bryderon am y ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu, drwy gysylltu â'r Llywodraeth</b></p>	<p>sydd gan yr UE, gan gynnwys y mecanweithiau anffurfiol ar gyfer dod o hyd i atebion sy'n cael eu hategu gan bwerau llymach i uwchgyfeirio materion i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a'r posibilwydd o roi dirwyon am dorri'r gyfraith.</p>	<p>ceisio dod o hyd i ateb drwy drafod, er y bydd yn argymhell newid gweithdrefnau ac arferion.</p> <p><u>Fframwaith</u> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bwerau i weithio gyda chyrrff cyhoeddus i'w helpu i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arnynt o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gall y Comisiynydd hefyd roi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar baratoi eu Cynllun Llesiant Lleol.</p> <p>Nid yw'r cyngor a'r cymorth hwn yn cael ei roi o fewn trefn orfodi ffurfiol.</p>	
<p><b>Pwerau i gyfeirio corff cyhoeddus i'r llys am fethiant honedig i weithredu cyfraith amgylcheddol, er mwyn ceisio cael rhwymedi</b></p>	<p>Ni fydd modd i'r DU gael ei gyfeirio bellach gan Gomisiwn yr UE at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd am fethu â gweithredu cyfraith amgylcheddol.</p>	<p>Mae nifer o achosion y gall unigolion eu cymryd o dan y gyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat pan nad yw cyrrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r gyfraith – byddai hyn y gymwys i gyfraith yr UE a fydd yn cael ei dargadw mewn deddfwriaeth ddomestig. Y prif fecanwaith ar hyn o bryd yw drwy adolygiad barnwrol, sy'n seiliedig ar herio cyfreithlondeb a rhesymoldeb yr hyn y mae corff cyhoeddus wedi'i wneud.</p>	<p>Nid oes unrhyw gorff wedi cael cyfrifoldeb penodol i gyfeirio corff cyhoeddus i'r llys os yw'r corff hwnnw wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r amgylchedd neu wedi methu â sicrhau canlyniad yr ymrwymodd iddo.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd y rheolau presennol ar statws a chostau yn atal partion preifat a chyrrff anllywodraethol rhag mynd ar drywydd adolygiad barnwrol.</p> <p>Nid oes yr un cwmpas i rwymedïau â'r rheini a ddarperir</p>

Swyddogaeth	Ar ôl gadael yr UE	Y Mekanweithau Presennol	Y Bwlch
<p><b>Pwerau i orchymyn bod mesurau interim yn cael eu cymryd cyn i'r dyfarniad gael ei wneud er mwyn osgoi difrod na ellir ei ddadwneud</b></p>	<p>Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ni fydd y pwerau presennol sy'n ymwneud â mesurau interim yn gymwys bellach. Mae pwerau'r UE yn rhan o fframwaith trosfwaol, sy'n cael ei ategu gan ddirwyon llymach am dorri'r gyfraith, ond ni fydd yn gymwys bellach.</p>	<p>Mae gan lysoedd a chyrrff cyhoeddus ystod o bwerau interim i atal gweithgareddau sy'n torri cyfreithiau amgylcheddol, ac fel arfer, gellir apelio yn erbyn eu dyfarniadau.</p>	<p>gan gyfraith yr UE. Colli fframwaith gorfodi trosfwaol yr UE.</p>
<p><b>Pwerau i'w gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth wneud yr hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio ac i osod sancsiynau os na fydd yn gweithredu (gan gynnwys dirwyon)</b></p>	<p>Unwaith y bydd y DU wedi ymadael â'r UE, ni fydd unrhyw rôl sy'n cyfateb i rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.</p>	<p>Gall llysoedd ddileu penderfyniadau o dan amgylchiadau penodol a rhoi iawndal ariannol os gwelir bod buddiant preifat ar ei golled. Atebolrwydd gwleidyddol ac atebolrwydd o ran polisi drwy'r Cynulliad neu atebolrwydd cyfreithiol drwy'r llysoedd fyddai'r prif ffyrdd o hyd i osod sancsiynau ar y llywodraeth.</p>	<p>Mae pwerau llysoedd Cymru a Lloegr yn fwy cyfyngedig na phwerau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.</p>

## Atodiad 7: Ble i gael rhagor o wybodaeth

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Essentials Guide - <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>
- Dogfen Hawdd ei Ddeall - Nodiadau ar Ddeddf Llesiant - Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160401-wfg-easy-read-cy.pdf>
- Dangosyddion Cenedlaethol - <https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf>
- Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-1-canllaw-craidd.PDF>

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

- Taflen Ffeithiau – Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy - <https://gov.wales/docs/desh/publications/160321-sustainable-management-of-natural-resources-cy.pdf>
- Taflen Ffeithiau – Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy - <https://gov.wales/docs/desh/publications/160321-delivery-framework-cy.pdf>
- Polisi Adnoddau Naturiol - <https://gov.wales/docs/desh/publications/170821-natural-resources-policy-cy.PDF>
- Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol - <https://naturalresources.wales/sonarr?lang=cy>